

**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

9.30yb – 30 Gorffennaf 2020

Ar-lein ar Microsoft Teams


AGENDA

Aelodaeth:

Rachel Barber (Cadeirydd)
John Cunliffe
Claire Hodson
Dianne Walker

	Eitemau Sefydlog		Diben	Tudalen	Amser
	Ymddiheuriadau	Cadeirydd			
99	Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2020 gael eu harwyddo fel cofnod cywir.	Cadeirydd		Tud 3-11	5 mun
100	Cofnod Gweithrediadau	Cadeirydd		Tud 12-19	5 mun
	Eitemau Sefydlog				
101	Diweddariad AHM	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Gwybodaeth	Adroddiad Tud 20-21	5 mun
102	Archwilio Mewnol a. Trosolwg Archwilio Mewnol – Adroddiad Rheolwyr (yn cynnwys crynodeb o Adolygiad Dilynol ac Adroddiad Blynyddol) b. SICA Archwilio Mewnol 2019-20 c. SICA Archwilio Mewnol 2020-21 gan gynnwys Cynllun Blynyddol	a – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb b&c – Rheolwr Archwilio TIAA	Sicrwydd	Adroddiad Tud 21-37 Tud 38-46 Tud 47-59	5 mun 5 mun
103	Diweddariad Risgiau - Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Sicrwydd	Adroddiad Tud 60-69	10 mun
	Eitemau Sefydlog				
104	Diweddariad Sefydliad	Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth	Llafar	10 mun
105	Bwrdd Sicrwydd – Rôl a Chylch Gwaith	Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd	Sicrwydd	Adroddiad Tud 70-74	10 mun

106	Gwerth am Arian – Cyflwyniad	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Pennaeth Cyllid	Sicrwydd	Sleidiau	20 mun
107	COVID-19 yn cynnwys Cynllun Adfer – Cyflwyniad	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro	Gwybodaeth	Sleidiau	20 mun
108	Diweddariad ar Ddatganiad o Gyfrif 2019-20 a. Diweddariad Llafar HGC b. Diweddariad Archwilio Cymru c. Llythyrau cyfrifon archwilio d. Adroddiad Amlinellol Rheolaeth y Trysorlys	Pennaeth Cyllid	Gwybodaeth	Adroddiad ac ar Llafar Tud 75-103 Tud 104 - 113	10 mun
110	Diweddariad Llywodraethu • Adolygiad Llywodraethu • Bwrdd Cyd Lywodraethu	Prif Swyddog Cyllid / Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Sicrwydd	Adroddiad Tud 114-118 Tud 119-122	10 mun
111	Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio (i'w drafod)	Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio	Gwybodaeth	Adroddiad Tud 123-149	5 mun
112	Rhaglen Waith ar gyfer 2020/21	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid	Penderfyniad	Adroddiad Tud 150-152	10 mun
	Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)				
113	UFA1 – Sesiwn Datblygu Cymru Gyfan UFA2 – Cynllun Archwilio Blynyddol 2020, Effaith Covid-19 UFA3 – Aelodaeth o'r CA	Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio Archwilio Cymru Prif Weithredwr	Gwybodaeth	Llafar Tud 153-161	15 mun
	DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL 5 Hydref 2020 10 Rhagfyr 2020 30 Mawrth 2021 AMODOL 29 Gorffennaf 2021 AMODOL 6 Hydref 2021 AMODOL 8 Rhagfyr 2021				
		CYFANSWM			145 mun



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach

NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

9 Mawrth 2020

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:

Rachel Barber – Cadeirydd
John Cunliffe
Dianne Walker
Claire Hodson

SWYDDOGION YR HEDDLU:

Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Guto Edwards – Pennaeth Cyllid
Helen Williams – Cyfrifydd Rheoli Ariannol
Prif Uwcharolygydd Dros Dro Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol
Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Busnes
Darren Griffiths – Rheolwr Llywodraethu Dros Dro

SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol
Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid
Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr

POBL ERAILL YN BRESENNOL

Helen Cargill, TIAA
Derwyn Owen, Swyddfa Archwilio Cymru
Michelle Phoenix, Swyddfa Archwilio Cymru

YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

Nododd y Cadeirydd fod Jim Illidge wedi ymddiswyddo o'r Cydbwyllgor Archwilio.

88. COFNODION A CHOFNOD GWEITHREDIADAU

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.

89. COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion. Gofynnodd y Cydbwyllgor i'r cofnod gweithrediadau gael ei ddiweddararu cyn y cyfarfod yn y dyfodol er mwyn edrych ar y gweithrediadau trwy eithriad yn fwy manwl yn y cyfarfod.

GWEITHRED 89	Cofnod Gweithrediadau i gael ei ddiweddararu cyn cyfarfodydd er mwyn edrych ar y gweithrediadau trwy eithriad yn y Cydbwyllgor Archwilio.
-----------------	---

90. DIWEDDARIADAU'R HMICFRS

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio bapur diweddariad HMICFRS.

Diweddarodd Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol y Cydbwyllgor ar y weithred yn erbyn Arolwg PEEL gan HMICFRS. Roedd gradd gyffredinol Heddlu Gogledd Cymru am yr arolwg hwn yn dda gyda 'Trin y Cyhoedd yn Deg' 'angen gwella' a graddiwyd 'Ymddygiad Gweithlu Moesegol a Chyfreithlon' fel 'da'

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn un o chwe heddlu a ddewiswyd am waith maes yn erbyn Uwch Gwynion yr Heddlu. Mae hon yn broses newydd o ymchwilio sy'n gadael i sefydliadau dynodedig godi materion ar ran y cyhoedd ynghylch yr hyn maent yn ei weld fel patrymau neu dueddiadau niweidiol mewn plismona. Mae Liberty a Southall Black Sister wedi gwneud uwch gŵyn sy'n honni fod arfer yr heddlu o drosglwyddo gwybodaeth am ddiodefswyr a thystion i'r Swyddfa Gartref at ddiben gorfodi mewn fudo yn niweidio buddiannau dioddefwyr a'r cyhoedd.

Ar 6 Ionawr 2020, roedd gan Heddlu Gogledd Cymru 34 o argymhellion agored (mae 17 o'r rhain yn anweithredol) a chyfradd gwblhau gyffredinol o 84%. Mae'r holl argymhellion wedi derbyn asesiad risg gan alluogi'r heddlu flaenoriaethu a chanolbwyntio ar y rhai hynny sy'n peri'r risg neu'r niwed mwyaf. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu gosod yn uchel iawn yn y tablau cenedlaethol am Argymhellion Rhagorol a Chyfradd Llwyddiant Cwblhau am bob Heddlu.

91. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL AC ADRODDIAD CYNNYDD

a. GORUCHWYLIAETH ARCHWILIO MEWNOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio gynnwys y papur.

Nodwyd fod gweithred digideiddio Rheoli Iechyd a Diogelwch ar y trywydd iawn a bod y system hysbysu newydd yn cael ei lansio heddiw. Byddai'r weithred hon wedi'i chau ar ôl lansiad llwyddiannus.

Roedd bob un o'r gweithrediadau namyn un ar y trywydd iawn gyda gweithrediad Diogelwch Rhwydwaith TGCh yn profi ychydig o lithriad (2 fis).

Gofynnodd y Cydbwyllgor Archwilio a all adroddiad cwmpasu/crynodeb gweithredol gael ei greu i roi crynodeb ar lefel uchel o faterion sy'n codi ac ymateb yr Heddlu i statws gweithrediadau.

GWEITHRED 91a	Swyddog Cyllid a Chyllidebau i gynnwys adroddiad cwmpasu/crynodeb gweithredol at gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.
--------------------------	--

b. ADOLYGIAD SICRWYDD RHEOLIADAU MEWNOL CRYNO (SICA)

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ac yn rhoi diweddariad ar gynnydd y gwaith a wnaed yn 2019-20 a diweddariadau ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol.

Mae saith adolygiad wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf gyda 6 yn cael eu crybwyll yn y ddogfen hon. Mae Hafan Ar-lein Unigol ychwanegol yn cael ei chwblhau yn hwyrach gyda dim pryderon sylweddol yn codi a dim themâu neu bryderon cyffredin yn codi o'r archwiliadau a ymgwymerwyd.

Gohiriwyd dau archwiliad – rheoli cytundebau gan fod gormod o archwiliadau'n canolbwyntio ar gytundebau a gohiriwyd cydweithredu at ddyddiad yn y dyfodol. Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Archwilio'r penderfyniad hwn.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Archwilio'r gohiriad mewn cynnal yr archwiliadau Cydweithrediad a Rheoli Cytundebau.

Holodd y Cydbwyllgor Archwilio os oedd y rheolwyr, ar ran y Prif Gwnstabl a'r CHTH, yn fodlon nad oedd yr archwiliadau hyn wedi digwydd. Cadarnhaodd y Rheolwyr mai fel hyn oedd hi a'u bod wedi meddwl am eu hymdriniaeth eu hunain er mwyn edrych ar y meysydd gwaith hyn. Eir â'r canlyniadau i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu a'u rhoi ar Agenda'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.

GWEITHRED 91b	Datganiadau Rheolwyr yr Heddlu i'w rhoi ar y Bwrdd Cyd Lywodraethu ac Agenda'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.
--------------------------	---

Holodd Aelodau'r Cydbwyllgor a oedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn fodlon na ddefnyddiwyd y dyddiau a ddyrannwyd i Archwilio Mewnol ac y byddai'r rhain yn cael eu cario ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd rheolwyr mai fel hyn oedd hi ac fe wnaiff y Cadeirydd nodi hyn o fewn Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio.

GWEITHRED 91c	Y Cadeirydd i nodi o fewn Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio fod y CHTH a'r Prif Gwnstabl yn fodlon na ddefnyddiwyd yr holl ddyddiau a ddyrannwyd i Archwilio Mewnol a'u bod i'w cario i'r flwyddyn ariannol nesaf.
--------------------------	--

Cadarnhaodd Archwilio Mewnol yr ychwanegir colofn ychwanegol at Atodiad 2 yn tynnu sylw at ba gamau gan reolwyr oedd wedi'u cymryd. Bydd hyn yn tawelu meddwl y Cydbwyllgor Archwilio fod y cam angenrheidiol wedi'i gymryd yn erbyn Nodiadau Briffio'r Cleientiaid.

GWEITHRED 91d	Archwilio Mewnol i ychwanegu colofn arall i'r tabl yn Atodiad 2 i ystyried Gweithred Rheolwyr.
------------------	--

c. ADRODDIAD SICRWYDD – RHEOLWYR AD – STRATEGAETH LESIANT

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Adolygiad Sicrwydd – Rheolwyr AD – adroddiad Strategaeth Lesiant lle derbyniwyd sicrwydd sylweddol a thynnwyd sylw at ond un weithred reolaidd.

Nodwyd fod nifer o fforymau eisoes mewn lle i graffu gwaith y Strategaeth Lesiant. Arweinir y grŵp hwn gan y Dirprwy Brif Gwnstabl ac y mae'n cael ei ystyried a'i asesu ar hyn o bryd.

d. ADOLYGIAD SICRWYDD CYDWEITHREDOL DYLEDWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Adolygiad Sicrwydd – Rheolwyr AD – adroddiad Strategaeth Lesiant lle derbyniwyd sicrwydd sylweddol a thynnwyd sylw at ond un weithred reolaidd.

Nodwyd fod Gogledd Cymru wedi rhannu eu gweithdrefnau gyda Heddlu Dyfed Powys a wnaiff rannu gyda gweddill Cymru gan fod prosesau Gogledd Cymru yn gweithio'n dda.

e. ADOLYGIAD SICRWYDD CYDWEITHREDOL CYFLAWNIAD RHEOLI STADAU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Adolygiad Sicrwydd Cydweithredol Cyflawniad Rheoli Stadau lle derbyniwyd sicrwydd rhesymol ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru gyda thair gweithred bwysig, 1 weithred reolaidd ac un weithred yn cael eu codi.

f. ADOLYGIAD CYDWEITHREDOL TREFNIADAU SICRWYDD CYFLOGRES

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Adolygiad Sicrwydd o Drefniadau Cyflogres lle derbyniwyd sicrwydd sylweddol gyda 2 weithred reolaidd wedi'u codi.

g. ADOLYGIAD SICRWYDD O'R RHAGLEN GYFALAF

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Adolygiad Sicrwydd o Raglen Gyfalaf lle derbyniwyd sicrwydd sylweddol gyda 2 weithred wedi'u codi.

h. ADOLYGIAD SICRWYDD CYDWEITHREDOL HAFAN AR-LEIN UNIGOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Adolygiad Sicrwydd o Hafan Ar-lein Unigol lle derbyniwyd sicrwydd rhesymol gyda 3 gweithred reolaidd wedi'u codi.

92. **DIWEDDARIAD RISGIAU**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur Diweddariad Risg.

Nodwyd y byddai'r Rhaglen Uplift yn cael ei rheoli gan Brif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol ond gyda mewnbwn gan swyddogion/adrannau/byrddau.

93. **PROSES RHEOLI RISG**

Gwnaeth Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol ddiweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio am gynnydd ers y cyfarfod diwethaf a sut roedd y broses risgiau yn cael ei defnyddio'n ehangach o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Nodwyd fod rôl Risg a Pharhad Busnes yn cael ei recriwtio a gofynnodd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio am weld y swydd ddisgrifiad er mwyn sicrhau fod holl feysydd gwaith yn ymgorffori i'r rôl hon.

GWEITHRED 93a	Prif Uwcharolygydd Dros Dro i rannu swydd ddisgrifiad Risg a Pharhad Busnes gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.
------------------	---

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r cynnydd a wnaed ers llynedd gyda'r broses Rheoli Risg mewn lle gwahanol iawn o le y dechreuwyd gyda phroses fwy strwythuredig mewn lle.

Gofynnwyd a ellid rhoi sicrwydd yn y Cydbwyllgor Archwilio ar sut y rheolir y broses a sut fydd y gweithrediadau sy'n weddill a gyflwynir yn y cyfarfod yn cael eu monitro ac yr edrychir arnynt. Nodwyd fod angen sicrwydd fod y risgiau'n cael eu rheoli'n iawn ac y dylai'r Bwrdd Sicrwydd hysbysu'r cyfarfodydd Cydbwyllgor Archwilio gan eu bod angen sicrwydd fod y risgiau'n cael eu rheoli a'u diweddarau'n rheolaidd.

GWEITHRED 93b	Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i sicrhau fod monitro parhaus o'r Fframwaith Rheoli Risg a chyflawni'r camau nesaf yn cael eu symud ymlaen drwy'r Bwrdd Sicrwydd.
------------------	--

GWEITHRED 93c	Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i sicrhau fod y Cydbwyllgor Archwilio yn cael eu hysbysu am ddiweddariadau cynnydd o ran cyflawni'r camau nesaf o ran y Fframwaith Rheoli Risg yn barhaus.
------------------	---

Aelod o'r Bwrdd Sicrwydd i gyflwyno papur yn y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf er mwyn eglur pa sicrwydd a geisir ganddynt ac amlinellu'r berthynas gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.

GWEITHRED 93d	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ofyn i Gadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i baratoi papur a mynd i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.
------------------	---

94. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL – FFRAMWAITH AC ADOLYGIAD LLYWODRAETHU

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Datganiad Llywodraethu drafft a'r newidiadau arfaethedig i'r ddogfen.

Hysbyswyd yr ymddengys fod cyfle wedi'i golli am gofnodi'r cynnydd hyd yn hyn ac mae angen cwblhau gwaith manylach.

Dywedodd Rheolwyr y gwnaiff y Bwrdd Llywodraethu a ail-ffurfiwyd gyflawni ymarfer clirio ar gyfer y Datganiad Llywodraethu. Dywedwyd hefyd y bydd angen i'r bwrdd hwn ystyried argymhellion yr Adolygiad Llywodraethu. Dywedodd y Cydbwyllgor Archwilio fod angen gwahaniaeth gwahanol rhwng gwaith y Byrddau Llywodraethu a Sicrwydd a'u bod angen ailedrych ar y Cylch Gorchwyl er mwyn ailddiffinio rôl y Bwrdd Llywodraethu.

GWEITHRED 94	Ailedrych ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyd Lywodraethu er mwyn sicrhau gwahaniaethau gwahanol rhwng Byrddau Llywodraethu a Sicrwydd.
-----------------	---

Holodd y Cydbwyllgor Archwilio a oedd rôl bellach o fewn Heddlu Gogledd Cymru o ran Llywodraethu neu a all ei ymgorffori o fewn y strwythur presennol? Dywedwyd y byddai efallai'n werth edrych ar sut mae sefydliadau eraill yn ymdrin â'u proses llywodraethau ac a oes unrhyw wersi i'w dysgu.

Rheoli i ddrafftio disgrifiad swydd ar gyfer y Rôl Llywodraeth i annog trafodaeth bellach o fewn y sefydliad a rhannu gydag Aelodau'r Cydbwyllgor. Gellir trafod hyn ymhellach yn y cyfarfod all-lein ym mis Mehefin.

GWEITHRED 94a	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i ddrafftio swydd ddisgrifiad Llywodraethu a'i rhannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. Ei gosod ar agenda cyfarfod all-lein mis Mehefin.
------------------	--

Llywodraethu

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur a gyflwynwyd ar Brosiect Llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru.

Ymgwymerwyd â'r Adolygiad Llywodraethu fel rhan o'r Prosiect Llywodraethu a oedd yn cynnwys cyfweild â grŵp eang o randdeiliaid, gan adolygu dogfennau perthnasol yr Heddlu a nodi ac asesu arfer gorau mewn Heddluoedd eraill.

Tynnodd yr adolygiad sylw at arfer cadarnhaol a nododd feysydd i'w gwella gyda chyfanswm o 28 argymhelliad yn cael eu cyflwyno gyda'r nod o alluogi'r Heddlu i gryfhau ei drefniadau llywodraethu.

Mae Tîm Prif Swyddogion yr Heddlu wedi derbyn y canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion ac wedi rhannu gydag Uwch Arweinwyr a Rheolwyr, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio.

Mae Cynllun Gweithredu wedi'i baratoi i weithredu'r argymhellion ac mae cynnydd yn cael ei wneud o ran creu Cod Llywodraethu Corfforaethol, Cynllun Dirprwyo ac adnewyddu strwythur llywodraethu'r Heddlu.

Gobeithir y bydd Cynllun Dirprwyo yn barod erbyn diwedd yr wythnos. Unwaith y bydd yn cael ei ddrafftio, bydd yn cael ei rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio am sylwadau.

GWEITHRED 94b	Rheolwr Llywodraethu Dros Dro i rannu Cynllun Dirprwyo drafft i'w rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio am eu sylwadau.
------------------	--

Diolchodd Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol i'r Rheolwr Llywodraethu Dros Dro am ei waith caled. Dywedodd y bydd ef a'i dîm yn symud ymlaen gyda'r prosiect hwn. Bydd y gwaith Llywodraethu yn cael ei olrhain/craffu yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu a bydd Crynodeb Gweithredol yn cael ei greu ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio.

GWEITHRED 94b	Llywodraethu i gael ei olrhain/craffu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu gyda chrynodeb gweithredol yn cael ei greu ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio.
------------------	--

95. STRATEGAETH GYFALAF

Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Archwilio'r crynodeb gweithredol ar gyfer yr adroddiad Strategaeth Gyfalaf drafft sydd angen bodloni gofynion Rheoli'r Trysorlys CIPFA yng Nghod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd angen ei ddilyn yn gyfreithiol.

96. CYNLLUN BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL

Gwnaeth y Cydbwyllgor Archwilio gymeradwyo Strategaeth Archwilio a Chynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2020/21.

Nodwyd fod cynllun wedi'i hysbysu gan asesiad risg archwiliad wedi'i ddiweddarau er mwyn sicrhau fod sylw arfaethedig ar gyfer y flwyddyn yn canolbwyntio ar y risgiau archwilio allweddol. Byddai sylw'r adolygiadau cydweithredu a gytunwyd yn galluogi darparu Pennaeth Barn Archwilio Mewnol blynyddol.

Bydd archwiliadau cydweithredol yn edrych ar dri maes risg –

- Llywodraethu
- Risg
- Systemau ariannol – rheoli costau a sicrhau'r incwm mwyaf posibl

Bydd hefyd yn ceisio risg gyffredin sydd rhaid i'r pedwar Heddlu weld pa arweiniad a ellir ei roi mewn lle.

Y 14 diwrnod nas defnyddiwyd yn y flwyddyn ariannol hon i'w hanfon ymlaen at y flwyddyn nesaf fel dyddiau wrth gefn.

GWEITHRED 96	Prif Swyddog Cyllid i sicrhau fod y 14 o ddyddiau Archwilio Mewnol nas defnyddiwyd yn y Flwyddyn Ariannol hon i'w cario drosodd i 2020-2021.
--------------	--

97. **CYNLLUN BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Archwilio Gynllun Blynyddol 2020 Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio dau gyfrif. Mae'r ddogfen hon yn rhoi nodyn atgoffa am rôl a chyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru.

Nodwyd fod cyfrifon ansawdd da angen cael eu paratoi yn unol gyda safonau diwydiant a nodwyd fod angen i rwymedigaethau pensiwn gael eu gwyllo'n ofalus yn ystod yr haf. Gall hyn gael effaith sylweddol ar ffigwr maint rhwymedigaeth.

Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru eu bod yn deall y byddai eu ffioedd yn cael eu cyfarfod yng nghyfarfod mis Mehefin a byddai'n croesawu'r cyfle i fod yn bresennol.

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio y byddai'r cyfarfod yn edrych ar y cyfrifon a ddim yn archwilio'r cyfrifon. Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a Phennaeth Cyllid i drafod pa fformat fydd y cyfarfod ym mis Mehefin.

GWEITHRED 97	Pennaeth Cyllid ac Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i drafod fformat cyfarfod mis Mehefin.
--------------	---

98. **RHEOLI CAFFAEL A CHONTRACTAU**

Darparodd Pennaeth Caffael drosolwg o'r adran a'i rôl a'i chyfrifoldebau i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Eglurodd fod yr Adran Gaffael wedi cael perthynas agos gyda Gogledd Orllewin Lloegr ynghyd â Heddluoedd Cymru. Mewn sawl enghraifft oherwydd daearyddiaeth Gogledd Cymru, mae'n hawdd ymdrin â Gogledd Orllewin Lloegr gan eu bod llawer agosach atom.

UNRHYW FATER ARALL

Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio

Cyflwynir copi terfynol o Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

Hysbyswyd y byddai'n anodd i'r Cydbwyllgor Archwilio ddweud y cyflawnir Gwerth am Arian gan nad ydynt wedi derbyn trosolwg o hyn. Gofynnwyd oes oedd y polisi Gwerth am Arian wedi'i ddiweddarau. Hysbysodd y Pennaeth Cyllid fod llawer o ddogfennau ar gael sy'n

dangos sut ydym yn mesur gwerth am arian a bydd yn creu trosolwg i'w rannu gyda'r Cydbwyllgor.

GWEITHRED 99a	Pennaeth Cyllid i roi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio ar sut y mesurir Gwerth am Arian o fewn Heddlu Gogledd Cymru.
------------------	--

Nodwyd fod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi sylw ar werth am arian yn eu llythyr archwiliad. Gofynnodd y Cydbwyllgor Archwilio a oedd dogfen gryno a oedd yn darparu hyn.

Blaengynllun Gwaith

Gofynnodd y Cydbwyllgor i'r Blaengynllun Gwaith gael ei gynnwys ym mhob cyfarfod Cyhoeddus er mwyn galluogi adolygu cyfarfodydd yn y dyfodol ym mhob cyfarfod a chipio holl weithgarwch fel Adroddiad Blynyddol y CA ac Adolygiad Blynyddol Effeithiolrwydd y Cydbwyllgor.

GWEITHREDIAD 99b	Prif Swyddog Cyllid i sicrhau fod Blaengynllun Gwaith i'w gynnwys fel eitem agenda yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol er mwyn galluogi aelodau'r Cydbwyllgor i adolygu a chipio gweithgarwch yn y dyfodol.
---------------------	--

Bwrdd Cyd Lywodraethu

Nodwyd fod gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dweud fod y Bwrdd Cyd Lywodraethu wedi chwalu. Cynorthwydd Personol i ddiweddarau'r wefan er mwyn adlewyrchu newidiadau.

GWEITHREDIAD 99b	Cynorthwydd Personol i ddiweddarau gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i adlewyrchu ailsefydlu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu.
---------------------	--

	Ar agor
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2020

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
	22a	UFA – RhDDC – Prif Swyddog Gweithredol i edrych ar rannu gwybodaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd o dan y RhDDC newydd.	Ar unwaith	PSG	<p>Angen Cytundeb Rhannu Gwybodaeth rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Pennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yn gweithio ar hwn.</p> <p>ISA/MOU yn cael ei ddrafftio ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng SCHTh a HGC. Awgrymir cael un ddogfen i gyd-fynd â'r Protocol Plismona. Nid yw'r Prif Swyddog Gweithredol yn credu bod angen hyn gan fod rhannu gwybodaeth yn cael ei gynnwys yn y Protocol Plismona a deddfwriaeth oedd yn cynnwys gwaith y Comisiynydd. Ond mae gwaith yn mynd yn ei flaen rhwng y ddau sefydliad. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.</p> <p>09/10/2019 – Prif Swyddog Gwybodaeth/Pennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth yn parhau i gydlynu gyda Heddluoedd eraill i weld beth sydd angen/rhaid gwneud ond mae'r Protocol Plismona yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth rhwng SCHTh a Heddluoedd.</p> <p>04/03/2020 – Mae drafft cyntaf y Memorandwm Dealltwriaeth wedi'i dderbyn ac mae sylwadau a cheisiadau am ddiwygiadau wedi'u gwneud. Gwnaiff y PSG gysylltu gyda Phrif Swyddog Gwybodaeth yr Heddlu er mwyn cwblhau'r ddogfen hon.</p>	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					09/03/2020 – Gobeithio cwblhau'r ddogfen erbyn diwedd mis Mawrth. 02/06/20 – Disgwyl am y ddogfen derfynol y mae gofyn amdani erbyn diwedd mis Mehefin. Cylchredir y ddogfen hon i aelodau'r CA pan fydd wedi'i chwblhau.	
	42	Swyddfa Archwilio Cymru - Llythyrau Ymchwiliad Twyll - Yn y dyfodol, y Prif Swyddog Cyllid i gynnig ymateb o'r blynyddoedd blaenorol i'r Llythyrau Ymholiadau Twyll ar gyfer y ddwy flynedd ochr yn ochr mewn dogfen sengl. Mae hyn er mwyn i'r Cydbwyllgor Archwilio allu cymharu'r ddau yn rhwyddach.	Gorffennaf 2020	PSC	Cyfredol. 08/06/2020 Dogfen yn cael ei chreu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod. Fel y gofynnwyd, rhoddir gwybodaeth am y ddwy flynedd yn yr un ddogfen i gynorthwyo cymharu.	
	56a	Moeseq – Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i godi'r ddilema a dderbyniwyd ynghylch rhai sy'n cael eu hymosod yn rhywiol gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr.	Wedi gohirio	Comisiynydd Heddlu a Throsedd	Y Prif Swyddog Cyllid wedi cydlynu gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth sy'n datgan bod hyn yn fater cenedlaethol sy'n cael ei ystyried yn ddiweddar gan yr ICO, GEG a'r llysoedd. Yn argymhell na ddylai CHTh beidio â bod yn rhan o'r mater ar y foment. 09/03/2020 – fel mater cenedlaethol, gall cynnwys y CHTh atal cynnydd. Gohirio hyd nes y bydd y darlun cenedlaethol yn gliriach. 02/06/20 – Wedi gohirio Yn disgwyl cynnydd cenedlaethol.	
	56b	Moeseq – Prif Swyddog Gwybodaeth i greu diagram llif syml o'r broses dilema foesegol a sut y'i gosodir o fewn Llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru.	Ar unwaith	Swyddog Llywodraethu a Sicrwydd	28/11/2019 Swyddog Llywodraethu a Pholisi i ymgymryd â hyn. 04/03/2020 Gwnaiff Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol greu diagram llif syml o ran Dilemâu Moesegol a rhannu hyn yng nghyfarfod nesaf y CA. (Gall y diagram hwn newid unwaith y penodir y Cadeirydd Annibynnol newydd - gweler gweithrediad 56c). 09/09/2020 – copi drafft i'w rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio ac yna'i gyflwyno i'r Pwyllgor Moeseq i'w gwblhau ac yna'i ail-rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					02/06/20 – Rhannwyd Siart Lif y Broses Dilemâu Moesegol gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	59b	Archwilio Mewnol – Archwilio Mewnol i wirio pa weithrediad sydd wedi'u gymryd yn erbyn yr argymhelliaid Sicrwydd Data.	Cyfarfod mis Mawrth	Rheolwr Archwilio Mewnol	Caewyd un o'r argymhellion ar Ddilyniant 2018/19. Bydd y ddau sydd ar ôl yn cael eu hasesu yn ystod dilyniant 2019/20. 28/11/2019 Bydd archwiliadau dilynol yn digwydd yn Chwefror/Mawrth a byddent yn adrodd am y canfyddiadau. 04/03/2020 Adolygiad dilynol archwilio mewnol yn cael ei ymgymryd yn yr wythnos yn dechrau 2 Mawrth. 03/06/2020 – Adolygydd fel rhan o ddilyniant 2019/20 ac maent wedi cwblhau. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	59h	Archwilio Mewnol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio ar ymweliad yr ICO i Heddlu Gogledd Cymru i adolygu eu cynllun gweithredu o ran RhDDC.	Pan mae ymweliad yr ICO wedi dod i ben	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Cynhaliwyd adolygiad er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r RhDDC ac mae'r gweithrediadau wedi cwblhau. 28/11/2019 Ail-agor. Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau edrych ar yr adroddiad ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio. 04/03/2020 Mae CCA wedi cyfarfod gyda Phennaeth Diogelwch Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth i drafod cynnydd o ran argymhellion archwiliad TIAA sy'n tarddu gan archwiliad RhDDC. Mae'r gweithrediadau wedi'u holrhain drwy eitem sefydlog Archwilio Mewnol hyd yma (mae angen i eiriad y gweithrediad gael ei ddiwygio gan mai ym mis Ionawr 2013 oedd adolygiad ymweliad diwethaf yr ICO). Mae dau weithrediad yn dal ar agor o ran Archwiliad Cydymffurfiaid Archwiliad RhDDC Rhif PO FN27625. Rhoddir y sefyllfa ddiweddaraf isod: 237156 Bydd rhyddhau'r gweithrediad yn ddibynol ar gyflawni'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol (sydd ar hyn o bryd yn Brosiect o fewn Rhaglen Waith Trawsnewidiad Digidol) gyda gosod llawn i ddechrau wedi cwblhau Cynllun Arbrol Defnyddwyr Busnes a disgwyl i gymryd	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					<p>12 mis arall.</p> <p>237154 Mae Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth wedi symud ymlaen gyda'r gwaith angenrheidiol gan greu Polisi Diogelu Data. Mae rhyddhau'r gweithrediad yn ddibynnol ar y swyddog Polisi yn cadarnhau'r ddogfen a grëir.</p> <p>Y cynnig yw cau'r gweithrediad hwn ar y cofnod gweithrediadau ac olrhain cynnydd drwy eitem agenda sefydlog Archwilio Mewnol.</p> <p>09/03/2020</p> <p>CCA i ystyried a ddylai'r tîm Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth gysylltu â'r ICO i edrych ar lwybrau posibl am sicrwydd o gydymffurfiaeth â RhDDC.</p> <p>02/06/2020 – Cyfarfod gyda'r Prif Swyddog Gwybodaeth a Phennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth wedi'i drefnu ar ôl CA mis Mawrth ond cafodd ei ganslo oherwydd Covid. Cyfarfod i gwblhau'r safbwynt ar y camau nesaf arfaethedig ar gyfer mis Mehefin.</p>	
	79b	Adroddiad Archwilio Mewnol ac Adroddiad Cynnydd – Archwiliad Mewnol i osod colofn ychwanegol ar gyfer sylwadau o fewn y tabl Nodiadau Cyfarwyddyd Cleientiaid.	Erbyn cyfarfod mis Mawrth	Rheolwr Archwilio Mewnol	<p>Anfonwyd yr Adroddiad Sicrwydd (SICA) i'w gyfieithu cyn derbyn y cofnod gweithrediadau. Adroddiadau yn y dyfodol i'w diwygio'n unol â hynny a chysylltir â Rheolwyr am ymatebion.</p> <p>02/06/20 – Amserlen fewnol wedi'i pharatoi gyda cholofn ychwanegol ar gyfer ymateb Rheolwyr. Cael eu hadrodd yn fewnol drwy Gwestiynau Cyffredin yr Uwch Dîm Rheoli – cynhwyswyd fel rhan o'r papurau o dan eitem 102 cyfarfod mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>	
	89	Cofnod Gweithrediadau – Cofnod Gweithrediadau i gael ei ddiweddararu cyn y cyfarfod er mwyn edrych ar y gweithrediadau trwy eithriad yn y Cydbwyllgor Archwilio.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cynorthwydd Personol	02/06/20 – Yr ysgrifenyddiaeth i gydlynu dilyniant cyfnodol ar weithrediadau. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	91a	Archwilio Mewnol – Swyddog Cyllid a Chyllidebau i gynnwys adroddiad cwmpasu/crynodeb gweithredol at gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Swyddog Cyllid a Chyllidebau	02/06/20 – Ychwanegu adran Rheolaeth Fewnol at Gwestiynau Cyffredin yr Uwch Dîm Rheoli fel eitem agenda sefydlog. Bydd adroddiadau cryno yn rhoi allbwn llawer byrrach ar gyfer y CA. Y bwriad yw parhau i rannu'r ddogfennaeth bapur waith greiddiol gydag aelodau'r CA	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
					cyn y cyfarfod ei hun. Darparu fformat newydd o bapurau o dan eitem 102 o gyfarfod mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	91b	Archwilio Mewnol – Datganiadau Rheolwyr yr Heddlu i'w rhoi ar y Bwrdd Cyd Lywodraethu ac Agenda'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cynorthwydd Personol / Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	02/06/2020 Nid oes rhwymedigaeth i greu Datganiad Rheolwyr yr Heddlu yn ystod 2020/21. Edrychir ar y ddogfen fodd bynnag a bydd yn cael ei chreu ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2021.	
	91c	Archwilio Mewnol – Y Cadeirydd i nodi o fewn Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio fod y CHTh a'r Prif Gwnstabl yn fodlon na ddefnyddiwyd yr holl ddyddiau a ddyrannwyd i Archwilio Mewnol a'u bod i'w cario i'r flwyddyn ariannol nesaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio	Cynnwys y datganiad o fewn Adroddiad Blynyddol 2019/20. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	91d	Archwilio Mewnol – Archwilio Mewnol i ychwanegu colofn arall i'r tabl yn Atodiad 2 y Nodyn Cyfarwyddyd Cleientiaid i ystyried Gweithred Rheolwyr.	Ar unwaith	Archwilio Mewnol – Swyddog Cyllid a Chyllidebau Newydd	02/06/20 – Mae Nodiadau Cyfarwyddyd Cleientiaid yn cael eu monitro bellach drwy Gwestiynau Cyffredin yr Uwch Dîm Rheoli C&A a bydd y CA yn cael ei hysbysu o dan adran rheolaeth Fewnol yr agenda (dolenni at weithrediad 91a). Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	93a	Proses Rheoli Risg – Prif Uwcharolygydd Dros Dro i rannu swydd ddisgrifiad Risg a Pharhad Busnes gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	Rhannwyd y ddogfen gyda CA 10/03/2020 Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	93b	Proses Rheoli Risg – Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i sicrhau fod monitro parhaus o'r Fframwaith Rheoli Risg a chyflawni'r camau nesaf yn cael eu symud ymlaen drwy'r Bwrdd Sicrwydd.	Ar unwaith	Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd	02/06/20 - Cyflawni cynnydd HGC o ran bod yr agenda risg (gan gynnwys mapio sicrwydd risg, chwant risg, categoreiddio risg) yn cael ei harwain gan yr arweinydd risg sydd newydd ei benodi, ac a oruchwylir gan y Bwrdd Sicrwydd. Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd i gyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	93c	Proses Rheoli Risg – Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i sicrhau fod diweddariadau cynnydd o ran cyflawni'r camau nesaf o ran y Fframwaith Rheoli Risg yn hysbysu'r	Ar unwaith	Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd	02/06/2020 – Bydd yr Arweinydd Risg yn rhoi Adroddiad Risg yn gofalu am gynnydd cyflawni'r camau nesaf o ran y Fframwaith Rheoli Risgiau er mwyn i'r CA graffu. Mae hon yn eitem sefydlog ar yr agenda. Gwnaiff Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd gyflwyno yng nghyfarfod mis Gorffennaf.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		Cydbwyllgor Archwilio'n barhaus.			Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	93d	Proses Rheoli Risg – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ofyn i Gadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i baratoi papur a mynd i gyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	02/06/2020 Gwahoddwyd Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd i ddod a pharatoi papur. Paratoi papur ac eitem agenda o Rôl a Chylch Gwaith y Bwrdd Sicrwydd ar gyfer agenda mis Gorffennaf. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	94a	Datganiad Llywodraethu Blynyddol – Ailedrych ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cyd Lywodraethu er mwyn sicrhau gwahaniaethau gwahanol rhwng Byrddau Llywodraethu a Sicrwydd.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	02/06/2020 – Trafodwyd ac edrychwyd ar y Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod y Bwrdd Cyd Lywodraethu ym mis Mawrth 2020. Diweddarwyd y Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod. (Cylchredwyd y fersiwn ddiweddaraf i'r CA 03/06/2020). Mae diben ac amcanion y cyfarfod yn wahanol ac yn i rai'r Bwrdd Sicrwydd. Cylch Gorchwyl y Bwrdd Sicrwydd (cylchredwyd 03/06/2020). (Dalier sylw, paratowyd Cylch Gorchwyl y Bwrdd Sicrwydd gan ddefnyddio'r hen fformat a bydd yn cael ei fformatio yn unol â'r templed corfforaethol newydd faes o law.) Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	94b	Datganiad Llywodraethu Blynyddol – Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i ddrafftio swydd ddisgrifiad Llywodraethu a'i rhannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio. Ei gosod ar agenda cyfarfod all-lein mis Mehefin.	Mehefin	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	02/06/2020 – Mae Swydd Ddisgrifiad ar gyfer y Swydd Llywodraethu yn cael ei ail-werthuso ar hyn o bryd ac felly ailedrychwyd arno'n ddiweddar. Rhannwyd y swydd ddisgrifiad diweddaraf gydag aelodau'r CA 08/06/2020.	
	94c	Datganiad Llywodraethu Blynyddol – Rheolwr Llywodraethu Dros Dro i rannu Cynllun Dirprwyo drafft i'w rannu gyda'r Cydbwyllgor Archwilio am eu sylwadau.	Ar unwaith	Rheolwr Llywodraethu Dros Dro	03/06/2020 – mae drafft o Gynllun Dirprwyo'r Prif Gwnstabl wedi'i rannu eisoes 03/06/2020. Mae'r drafft ar hyn o bryd yn amodol ar adolygiad gan Brif Swyddogion yr Heddlu.	
	94d	Datganiad Llywodraethu Blynyddol - Llywodraethu i gael ei olrhain/craffu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu gyda chrynodeb gweithredol yn cael ei	Erbyn cyfarfod mis Gorffennaf.	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol	02/06/20 – Cylch Gorchwyl y Bwrdd Cyd Lywodraethu i ymgorffori'r agwedd hon o'r bwrdd. Diweddariad llywodraethu ar agenda mis Gorffennaf 2020. Awgrymu cau'r gweithrediad.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD
		greu ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio.				
	96	Cynllun Archwilio Mewnol – Prif Swyddog Cyllid i sicrhau fod y 14 o ddyddiau Archwilio Mewnol nas defnyddiwyd yn y Flwyddyn Ariannol hon i'w cario drosodd i 2020-2021.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	Mae TIAA wedi rhoi bil am y dyddiau a weithiwyd yn 2019/20. Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi cael ei dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	97	Cynllun Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – Pennaeth Cyllid ac Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i drafod fformat cyfarfod mis Mehefin.	Cyn cyfarfod mis Mehefin.	Pennaeth Cyllid ac aelod o'r CA	02/06/20 – trafodwyd a chylchredwyd agenda ddrafft. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	99a	UFA – Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio – Pennaeth Cyllid i roi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio ar sut y mesurir Gwerth am Arian o fewn Heddlu Gogledd Cymru.	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	02/06/20 – Cynnig eitem a chyflwyniad ar gyfer agenda mis Gorffennaf 2020. Argymhell eitem agenda mis Gorffennaf 2020. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	99b	UFA – Blaengynllun Gwaith – Prif Swyddog Cyllid i sicrhau fod Blaengynllun Gwaith i'w gynnwys fel eitem agenda yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol er mwyn galluogi aelodau'r Cydbwyllgor i adolygu a chipio gweithgarwch yn y dyfodol.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	Ar yr agenda fel eitem sefydlog. Awgrymu cau'r gweithrediad.	
	99c	UFA – Bwrdd Cyd Lywodraethu Cynorthwydd Personol i ddiweddarau gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i adlewyrchu ailsefydlu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu.	Ar unwaith	Cynorthwydd Personol	Gwefan wedi'i diweddarau i adlewyrchu ailsefydlu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu. Awgrymu cau'r gweithrediad.	

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL GYFRIFOL	SY'N	DIWEDDARIAD	CANLYNIAD

Allwedd Talfyriadau	
PG	Prif Gwnstabl
PSG	Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh)
PSC	Prif Swyddog Cyllid (SCHTh)
CCA	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC)
Pennaeth Cyllid	Guto Edwards
Pennaeth Caffael	Patricia Strong
HMICFRS	Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi
CA	Cydbwyllgor Archwilio
HGC	Heddlu Gogledd Cymru
SCHTH	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
CP	Cynorthwydd Personol i'r PSG a'r PSC
CHTH	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
ASP	Adran Safonau Proffesiynol (HGC)
TIAA	Archwilio Mewnol
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru



Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 30 Gorffennaf 2020

Teitl:	Uned Cynllunio Strategol
Awdur:	Prif Arolygydd Dros Dro Andrew Griffiths
Pwrpas yr adroddiad:	Diweddariad Gwybodaeth
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
Pwyntiau cryno / allweddol:	<p><u>HMICFRS</u></p> <p>Mae gweithgarwch AHM o fewn heddluoedd yn parhau wedi'i ohirio. Felly nid oes newid yn ein hargymhellion a'n statws Meysydd i'w Gwella. Mae gwaith yn HGC wedi symud yr argymhellion ymlaen. Ond gan na all AHM wirio am unrhyw gynnydd a wnaed, mae'r rhifau yn parhau'r un fath. Mae'r darlun yr un fath yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae HGC yn fodlon gyda'r cynnydd mewnol ac nid oes gennym ddim i'w adrodd drwy eithriad. Pan mae AHM yn dychwelyd i arolygu, rydym yn hyderus y gwnânt gymeradwyo rhai o'r argymhellion a'r Meysydd i'w Gwella. Yn y meysydd lle nad ydym yn gofyn am gymeradwyaeth, rydym yn fodlon gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud.</p> <p><u>Cynllunio Strategol</u></p> <p>Mae ymdriniaeth yr heddlu at gynllunio sefydliadol ar gyfer y flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2021 tan fis Mawrth 2022 wedi dechrau. Bydd yn:</p> <ol style="list-style-type: none">Plethu i gynlluniau adfer wedi COVID-19.Rhoi'r sylfaen i'n dyhead sefydliadol er mwyn cyflawni'r weledigaeth ac yn gymhelliad i barhau i wella wrth i ni anelu tuag at hyn.Sicrhau fod y sefydliad yn nodi effeithlonrwydd.Nodi opsiynau ar gyfer arbedion er mwyn caniatáu ailddyrrannu adnoddau i fodloni bylchau a nodir drwy Ddatganiad Rheoli'r Heddlu.Sicrhau yr ystyrir angen cymorth swyddfa wrth gefn i gyflawni rhagoriaeth weithredol. <p>Bydd hefyd yn cynnig rhestr o opsiynau buddsoddi yn gofalu am Ymgyrch Uplift, prosiectau nas ariannwyd a meysydd lle gellir datblygu achos busnes cymhellol. Gellir cyflwyno'r opsiynau hyn ar gyfer gosod cyllideb.</p> <p>Arweinir y broses hon gan y Dirprwy Brif Gwnstabl ac mae angen gweithio cydweithredol ledled yr holl feysydd swyddogaethol.</p> <p>Prif bileri'r broses gynllunio fydd:</p> <ul style="list-style-type: none">Bydd Achosion Busnes yn cael eu comisiynu gan Brif Swyddogion lle mae'r buddsoddiad yn sylweddol.




	<ul style="list-style-type: none">• Bydd holl feysydd Gwasanaeth yn cwblhau Cynllun Busnes sy'n cynrychioli eu dealltwriaeth o alw presennol a galw yn y dyfodol. Bydd yn disgrifio eu gallu i fodloni'r heriau hyn a gwneud asesiad risg o unrhyw fwch rhwng gallu presennol, a galw yn y dyfodol. <p>Mae disgwyl y bydd pawb yn nodi arbedion effeithlonrwydd ac ymgysylltu'n llawn gyda'r opsiwn arbedion.</p> <p>Er mwyn caniatáu i ni fuddsoddi yn y cymorth swyddfa wrth gefn angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth, mae angen ystyried ymdriniaeth hyblyg at ddefnyddio adnoddau Uplift. Rydym yn tybio y bydd lle ariannol i fuddsoddi mewn swyddi staff yr heddlu yn gyfyngedig.</p>
Argymhellion:	Amherthnasol
Effaith cofrestr risgiau:	Amherthnasol
Goblygiadau sicrwydd:	Amherthnasol
Effaith Cydraddoldeb:	Amherthnasol
Gwybodaeth wedi'u heithrio o ddadleniad:	



Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 30 Gorffennaf 2020

Teitl:	Adroddiad Rheoli Mewnol
Awdur:	Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllidebau Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Diben yr adroddiad:	Rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio am weithgarwch Rheoli Mewnol o fewn yr Heddlu
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<p>Mae'r adroddiad yn crynhoi gweithgarwch rheoli Mewnol allweddol o ran:</p> <ul style="list-style-type: none">• Statws argymhelliad o Archwiliadau TIAA blaenorol• Ymateb rheolwyr o ran Nodiadau Briffio Cleientiaid Diweddar (CBN)• Archwiliadau TIAA yn y cyfnod yn cynnwys crynodeb byr o'r TIAA Canfyddiadau Adolygiad Dilynol.• Crynodeb byr o farn Pennaeth Archwilio Mewnol fel y rhoddir yn adroddiad blynyddol y TIAA: <p><i>Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol mewn lle i reoli cyflawniad eu hamcanion yn y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn.</i></p> <ul style="list-style-type: none">• Nodiadau Briffio Cleientiaid wedi'u rhannu yn y cyfnod• Y statws presennol ac ystyriaethau allweddol o ran Cynllun Archwilio Mewnol 2020-21 ac oedi a brofwyd yn erbyn y rhaglen hyd yma.
Argymhellion:	Dim
Effaith Cofrestr Risgiau:	<p>Mae canfyddiadau rheoli TIAA a Nodiadau Briffio Cleientiaid Gofrestr wedi cael eu hystyried i'w hadlewyrchu ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu.</p> <p>Mae 3 Nodyn Briffio Cleientiaid dros y cyfnod adrodd hwn wedi annog adolygiadau ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu neu ym Mapio Sicrwydd Risgiau C&A. Mae'r Nodiadau Briffio Cleientiaid perthnasol yn cael eu manylu yn yr adroddiad.</p> <p>Bydd oedi i raglen Sicrwydd 2020-21 yn parhau i gael eu monitro ond maent eto i'w cydnabod yn ffurfiol fel risg yn ffurfiol o fewn y fframwaith.</p>
Goblygiadau Sicrwydd:	Mae'r adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol at Weithgarwch Rheoli Mewnol yn rhoi Sicrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:	Amherthnasol – Holl gynnwys yn y Sesiwn Agored



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

ADRODDIAD RHEOLI MEWNOL – 30 GORFFENAF 2020

ADRODDIAD COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD A PHRIF GWNSTABL GOGLEDD CYMRU

1. CYFLWYNIAD


Diben yr adroddiad hwn yw cynnig diweddariad ar Weithgarwch Rheoli Mewnol ers y Cydbwyllgor Archwilio diwethaf. Mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd ac a gofnodwyd erbyn 2 Gorffennaf 2020. Disgwylir fod gweithgarwch pellach wedi digwydd erbyn cyfarfod mis Gorffennaf o'r CA ei hun, a bydd diweddariad ar lafar ar sail eithriadol yn y cyfarfod.

Dylai'r adroddiad gael ei ddarllen ar y cyd gyda'r papurau TIAA a gyflwynwyd i'r CA ar gyfer y cyfarfod. Mae'n crynhoi'n benodol y gweithgarwch Rheoli Mewnol allweddol o ran:

- Statws argymhelliad o Archwiliadau TIAA blaenorol
- Ymateb rheolwyr o ran Nodiadau Briffio Cleientiaid Diweddar (CBN)
- Archwiliadau TIAA yn y cyfnod yn cynnwys crynodeb byr o adroddiad dilynol TIAA ac Adroddiad Blynyddol TIAA
- Nodiadau Briffio Cleientiaid wedi'u rhannu yn y cyfnod
- Y statws presennol ac ystyriaethau allweddol o ran Cynllun Archwilio Mewnol 2020-21

2. STATWS ARGYMHELLIAD O ARCHWILIADAU TIAA

Amlinellir y sefyllfa ar argymhellion Archwilio Mewnol 2019-20 ar 2 Gorffennaf 2020 isod:



Mae dadansoddiad y 27 o argymhellion cyfan wedi'u hamlinellu isod:

Crynodeb Statws – Gweithredwyd	Categori	Rhif
Gweithredwyd ar neu cyn y dyddiad dyledus gwreiddiol	Cat 1	18
Gweithredwyd ar neu cyn y dyddiad dyledus diwygiedig 1af	Cat 2	2
Gweithredwyd ar neu cyn yr 2il ddyddiad dyledus diwygiedig	Cat 3	0
Gweithredwyd ar neu cyn y 3ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 4	1
Gweithredwyd ar neu cyn y 4ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 5	0
Gweithredwyd ar neu cyn y 5ed dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 6	2
Gweithredwyd ar ôl y dyddiad dyledus gwreiddiol a/neu ddiwygiedig	Cat 7	4
		27

O'r argymhellion a weithredwyd ers yr adroddiad diwethaf, mae o bwys mawr fod pedwar o'r rhain yn berthnasol i argymhellion archwiliad 2018 hirhoedlog fel y rhestrir isod:

ID	Gwasanaeth	Swydd	Blwyddyn	Maes Risg
227788	Archwilio Mewnol	Llywodraethu – Rheolaeth Iechyd a Diogelwch Rhif PO FN27625	2018	Risg Cydymffurfiaeth
237154	Archwiliad TGCh	Archwiliad Cydymffurfiaeth RhDDC Rhif PO FN27625	2018	Risg dan Gyfarwyddyd
237158	Archwilio Mewnol	Rheolaeth Cytundebau Rhif PO FN27625	2018	Risg Cydymffurfiaeth
236649	Archwiliad TGCh	Diogelwch TGCh – Rhyngwyd/E-bost/Cyfrngau Cymdeithasol Rhif PO FN27625	2018	Risg Cydymffurfiaeth

Amlinellir dadansoddiad o'r 13 o argymhellion sy'n weddill ar 2 Gorffennaf 2020 hefyd isod:

Crynodeb Statws – Argymhellion sy'n Weddill	Categori	Rhif
Nifer yr Argymhellion – dal ar y dyddiad dyledus gwreiddiol	Cat 1	7
Nifer yr Argymhellion – dyddiad dyledus diwygiedig 1af	Cat 2	4
Nifer yr Argymhellion – 2il ddyddiad dyledus diwygiedig	Cat 3	1
Nifer yr Argymhellion – 3ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 4	1
Nifer yr Argymhellion – 4ydd dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 5	0
Nifer yr Argymhellion – 5ed dyddiad dyledus diwygiedig	Cat 6	0
Nifer Argymhellion – Hwyr	Cat 7	0
		13

Mae'r sefyllfa ddiweddaraf a diweddariad o ran y 13 o argymhellion sy'n weddill yn Atodiad 1.0.

3. YMATEB RHEOLWYR O RAN NODIADAU BRIFFIO CLEIENTIAID (CBNs)




Mae CBNs yn cael eu hadrodd a'u monitro bellach drwy UDRh C&A gyda'r Bwrdd Cyd Lywodraeth yn rhoi trosolwg pellach.

Mae CBNs sy'n dyddio nôl i fis Medi 19 wedi cael eu crynhoi ar atodlen unigol ac yn cael eu rhannu gydag aelodau'r CA yn gyfnodol.

Mae'r statws presennol ar CBNs a gasglwyd ers mis Medi 2019 i'w weld isod:

	CBNs	Angen Gweithredu	Gweithrediadau Agored
CBNs – 1909 i 2006	19	10	0

Mae 3 Nodyn Briffio Cleientiaid dros y cyfnod adrodd hwn wedi annog adolygiadau ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu neu ym Mapio Sicrwydd Risgiau C&A. Mae'r Nodiadau Briffio Cleientiaid perthnasol yn cael eu rhestru isod. Bydd monitro'r risgiau hyn yn awr yn digwydd drwy broses Rheoli Risgiau'r Heddlu (ac felly mae unrhyw weithrediadau sy'n gysylltiedig gyda'r CBNs wedi'u cau yn unol â hynny):

Dyddiad Cyhoeddi	Cyf CBN	Pwnc	Statws
13/05/2020	CBN – 20006	I gyd – Bygythiadau seiber yn ystod Pandemig COVID-19	
16/01/2020	CBN – 20001	I gyd – Microsoft Windows 7 – Diwedd Cefnogaeth	
04/11/2019	CBN – 19028	I gyd – Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon – Arolwg Toriadau Diogelwch Seiber	

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd ymateb i gyfarwyddyd TIAA yn amlinellu nifer o ystyriaethau ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael ei pharatoi ar gyfer aelodau'r CA.

4. ARCHWILIADAU AC ADRODDIADAU TIAA A GYHOEDDWDYD YN Y CYFNOD

Roedd adroddiadau ac argymhellion Archwiliad TIAA a gyhoeddwyd ers CA mis Mawrth 2020 fel a ganlyn:

Adolygiad	Gwerthusiad	Cyhoeddi drafft terfynol	1	2	3	OE
Adolygiad ar y cyd – Credydwyd	Rhesymol (HGC yn unig)	11/03/2020	0	1	2	1*
Dilyniad	Amherthnasol	08/04/2020	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Rheoli Newid TGCh	Sylweddol	14/05/2020	0	0	2	0
Rheoli Risg – Sicrwydd i'r Bwrdd	Rhesymol	28/05/2020	0	4	3	2

Llywodraethu Cyfathrebiadau Corfforaethol	–	Rhesymol	16/06/2020	0	2	0	0
Diogelwch Seiber TG		Rhesymol	22/06/2020	0	2	0	1

Mae adroddiadau archwilio y TIAA wedi cael eu rhannu'n llawn gydag aelodau'r CA.

Tra mae'r adroddiadau llawn wedi'u rhannu gydag aelodau'r CA, mae crynodeb byr o'r Archwiliad Dilynol ac Adroddiad Blynyddol Blwyddyn Ariannol 2019-20 isod:

ADOLYGIAD DILYNOL:

Mae canfyddiadau allweddol adolygiad dilynol o'r adroddiad a gwblhawyd ym mis Ebrill 20 wedi'u crynhoi isod:

Gwerthusiad	Niferoedd Argymhellion
Gweithredwyd	18
Gweddilliol	8
Ystyriwyd ond ni Weithredwyd	-
Ni Weithredwyd	2

Fe wnaeth adroddiad y TIAA wneud sylwadau fel a ganlyn:

- Mae'r Heddlu wedi gwneud cynnydd da mewn ymdrin â'r argymhellion a godwyd. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gweithredu 18 allan o 28 (64%) o argymhellion a adolygwyd.
- Nid yw'r ddau argymhelliad na chafodd eu gweithredu bellach yn berthnasol gan fod trefniadau eraill mewn lle fel a ganlyn:
 - Treuliau a Thaliadau Ychwanegol – Nid yw'r argymhelliad i gadw dogfennau yswiriant car unigolion yn ddiogel bellach yn berthnasol gan nad yw'r Heddlu bellach yn cadw dogfennau yswiriant. Maent yn awr yn dibynnu ar ddatganiadau unigol ar y ffurflen hawliad traul a gefnogir gan wiriadau arbennig.
 - Rheoli Contractau – nid yw'r argymhelliad bellach yn berthnasol gan fod cyfarfodydd misol yn digwydd sydd tu hwnt y cyfarfodydd chwarterol a argymhellir.
- Mae'r saith argymhelliad sy'n weddill i'w gweithredu erbyn diwedd mis Mawrth 2020.

ADRODDIAD BLYNYDDOL TIAA 2019-20:




Yn ogystal mae Pennaeth Archwilio Mewnol TIAA hefyd wedi cyhoeddi eu Hadroddiad Blynyddol 2019-20 ar 26/06/20 gyda'r farn Flynyddol foddhaol isod yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad:

Llywodraeth (yn cynnwys awdurdodau lleol)	3.5	(3.5)	0.0	n/a	-
Cyfanswm Buddsoddiadau	17.5	(2.0)	15.5	0.25%	14.6

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarvoudus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd orau o elw, neu arenillion. Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac elw, gan leihau'r risg o dynnu colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Dangosir cynnydd metrigau risg ac elw yn y darnau o feincnodi buddsoddiadau chwarterol Arlingclose yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Meincnodi Buddsoddiadau – buddsoddiadau'r Trysorlys wedi'u rheoli'n fewnol

	Sgôr Credyd	Gradd Gredyd	Dadleniad Achub Croen	Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (dyddiau)	Cyfradd Elw %
31.03.2019	3.95	AA-	80%	1	0.76%
31.03.2020	4.33	AA-	100%	16	0.55%
Cytundebau Lefel Tebyg Holl	3.91	AA-	58%	46	0.71%
Cytundebau Lefel	4.03	AA-	56%	20	1.23%

Fodd bynnag, er dechrau'r pandemig CoVID-19, mae'r effaith ar sefyllfa economaidd y byd wedi bod yn ddifrifol. Roedd ymateb y farchnad yn ddifrifol gyda chwymp mawr mewn ecwiti, marchnadoedd bond corfforaethol ac i raddau, eiddo tiriog yn dilyn y cloi mawr a'r heriau newydd i lywodraethau, busnesau ac unigolion. Roedd yr anwadalrwydd wedi ei fesur gan fynegai VIX bron mor uchel ag yn ystod yr argyfwng ariannol byd eang yn 2008/9 fel y gwelwyd ym mhrisiau ecwiti yn disgyn a lledaenu bondiau corfforaethol tebyg iawn i'r rheini ddeuddeg mlynedd yn ôl. Disgynnodd arenillion gilt ond lledaenodd taeniadau credyd yn fawr gan adlewyrchu'r dirywiad mewn amgylchiadau economaidd a chredyd yn gysylltiedig â diffyg twf mewn economïau. Felly cododd elw bondiau corfforaethol (yn cynnwys arenillion gilt ynghyd â'r taeniad credyd) ac felly disgynnodd prisiau.

Fis Tachwedd 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol i fod yn effeithiol o'r flwyddyn ariannol 2020/21. Mae hyn yn cynnwys cyfrol newydd ar sail y canllaw a gyhoeddwyd y llynedd gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr.

Mae'r diffiniad o fuddsoddiadau wedi ei ehangu i gynnwys “pob ased ariannol ac anariannol y mae awdurdod lleol wedi buddsoddi arian ynddo yn bennaf neu yn rhannol ar gyfer y pwrpas o greu arian dros ben yn cynnwys eiddo buddsoddi”. Mae hyn ar yr amod ei fod wedi ei wneud gan ddefnyddio'r pŵer i fuddsoddi sydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2003. Yn ogystal, mae benthyciadau i gwmnïau neu gymdeithasau sy'n berchen yn llawn, i fentrau ar y cyd, neu i drydydd parti yn cyfrif fel buddsoddiad waeth beth yw'r pwrpas neu'r pŵer cyfreithiol a ddefnyddir.

Nid oedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddiadau di-drysorlys yn ystod 2019/20.

7. Cydymffurfiaeth

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn hysbysu fod holl weithgarwch rheoli'r trysorlys a ymgymerir yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwelir cydymffurfiaeth gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn nhabl 8 isod.

Dangosir cydymffurfiaeth gyda'r terfyn awdurdodedig a ffin weithredol ar gyfer dyled allanol yn nhabl 7 isod.

Tabl 7: Terfynau Dyled

	Uchafswm 2019/20	Presennol 31.3.20	Ffin Weithredol 2019/20	Terfyn Awdurdodedig 2019/20	Yn cydymffurfio? Ydy/Nac ydy
Benthyca	£14.9m	£14.9m	£20.4m	£22.4m	Ydy
PFI a Phrydlesoedd Cyllid	£9.9m	£9.9m	£9.9m	£9.9m	Ydy
Cyfanswm dyled	£24.8m	£24.8m	£30.3m	£32.3m	Ydy

Gan fod y ffin weithrediadol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro blwyddyn, nid yw'n arwyddocaol os torrir y ffin weithrediadol ar brydiau oherwydd amrywiadau mewn llif arian parod. Ni chyfrifir hyn fel methiant cydymffurfiaeth.

Tabl 8: Terfynau buddsoddiad

	Uchafswm 2019/20	Presennol 31.3.20	Terfyn 2019/20	Yn cydymffurfio? Ydy/Nac ydy
Unrhyw sefydliad unigol, oni bai am Lywodraeth y DU	£5.2m	£0.01m	£7.0m	Ydy
HSBC (bancwyr y Comisiynydd)	£15.5m	£15.5m	£10.0m	Na

O'r £15.5m wedi ei flaendalu ar 31 Mawrth 2020 gyda HSBC, blaendalwyd £7.0m mewn cyfrif 31 diwrnod o rybudd, felly nid yw ar gael ar unwaith. Cadwyd balans o £8.5m mewn cyfrif cyfredol HSBC, er mwyn sicrhau hylifedd digonol yn ystod cyfnod clo COVID 19. Nid yw'r balans olaf yn y cyfrif cyfredol yn fuddsoddiad yn dechnegol, ond yn ysbryd datgeliad llawn mae hyn wedi cael ei ystyried fel rhan o'r dangosydd hwn.

Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mesur a rheoli ei ddadleniadau at risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

Gwarantiad: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro'r gyfradd credyd cyfartalog a bwysa'r gwerth o'i bortffolio buddsoddiadau.

	Presennol 31.3.20	Meini Prawf Sylfaenol 2019/20	Yn cydymffurfio?
Gradd gredyd gyfartalog portffolio	AA-	A-	Ydy

Hylifedd: Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro maint yr arian parod sydd ar gael wedi'i osod ar leiafswm o £10m.

	Presennol 31.3.20	Lleiafswm 2019/20	Yn cydymffurfio?
Cyfanswm arian parod sydd ar gael dros nos	£15m	£8.8m	Na*

* Gweler paragraff 6 am eglurhad

Strwythur aeddfedrwydd benthycia: Mae'r dangosydd hwn ar fin rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg ail ariannu. Roedd terfynau uchaf ac isaf ar y strwythur aeddfedrwydd benthycia yn:

	Presennol 31.3.20	Terfyn uchaf	Terfyn isaf	Yn cydymffurfio?
O dan 12 mis	100%	100%	0%	Ydy
12 mis ac o fewn 24 mis	0%	100%	0%	Ydy
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	0%	100%	0%	Ydy
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	0%	100%	0%	Ydy
10 mlynedd a mwy	0%	100%	0%	Ydy

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf bob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedrwydd benthycia yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynni ad-daliad.

Prif symiau a fuddsoddwyd am gyfnodau yn hirach na 365 diwrnod: Diben y dangosydd hwn yw rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg colledion drwy geisio ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Y terfynau ar y prif swm tymor hir a fuddsoddwyd i aeddfedrwydd terfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod oedd:

	2019/20	2020/21	2021/22
Prif swm presennol a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£0m	£0m	£0m
Terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£5m	£5m	£5m
Yn cydymffurfio?	Ydy	Ydy	Ydy

8. Arall

IFRS 16: CIPFA/LASAAC wedi cynnig oedi gweithredu'r brydles IFRS16 newydd am flwyddyn arall i 2021/22.



Cydbwyllgor Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod: 30 Gorffennaf 2020

Teitl:	PROSIECT LLYWODRAETHU HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Awdur:	Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol
Diben yr Adroddiad:	Rhoi diweddariad pellach i'r Cydbwyllgor Archwilio ar y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion a oedd yn codi o'r Adolygiad Llywodraethu.
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb/Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi cael ei baratoi sy'n disgrifio sut y gwnaiff y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gyflawni eu cyfrifoldebau a llywodraethu eu sefydliadau, ar wahân ac ar y cyd, yn unol â'r saith egwyddor llywodraethu da a gydnabyddir yn rhyngwladol.• Mae Cynllun Dirprwyo wedi'i baratoi i roi fframwaith ar gyfer sicrhau fod busnes Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei gyflawni'n gyfreithiol, yn effeithlon ac yn effeithiol. Gwneir hyn drwy amlinellu pwy sydd gan awdurdod o fewn yr Heddlu er mwyn arfer grymoedd a swyddogaethau penodol ar ran y Prif Gwnstabl.• Cymeradwywyd nifer o newidiadau i Strwythur Llywodraethu'r Heddlu. Mae'r newidiadau hyn wedi'u llunio i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Strwythur Llywodraethu'r Heddlu.• Mae templed a chanllaw corfforaethol newydd ar gyfer Cylch Gorchwyl wedi'i baratoi. Mae'r canllaw hefyd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifenyddiaeth, Aelodau a Mynychwyr.
Argymhellion:	Gwahoddir y Cydbwyllgor Archwilio i nodi'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yma.
Effaith Cofrestr Risgiau:	Dim
Goblygiadau Sicrwydd:	Mae'r prosiect yn anelu i gryfhau llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru drwy sicrhau fod gan yr Heddlu drefniadau a strwythurau effeithlon, effeithiol a chadarn mewn lle. Mae'r prosiect, felly, yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu a gwella sicrwydd ledled yr Heddlu.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'u heithrio o ddatleniad:	Dim



Prosiect Llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru

1. Cyflwyniad

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad pellach i'r Cydbwyllgor Archwilio ar y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion a oedd yn codi o'r Adolygiad Llywodraethu. Mae trosolwg o nod ac amcanion y Prosiect Llywodraethu, a chrynodeb o ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion yr Adolygiad Llywodraethu wedi'u rhoi mewn adroddiadau ar wahân i'r Cydbwyllgor Archwilio ar 28 Tachwedd 2019 a 9 Mawrth 2020 yn y drefn honno.
- 1.2 Rhoddir trosolwg lefel uchel o gynnydd yn erbyn bob argymhelliad yn **Atodiad 1**. Dylid nodi fod yr Heddlu wedi cytuno i flaenoriaethu gweithredu'r argymhellion o ran creu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol; creu Cynllun Dirprwyo'r Prif Gwnstabl; ac adnewyddu Strwythur Llywodraethu'r Heddlu.

2. Cod Llywodraethu Corfforaethol

- 2.1 Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi cael ei baratoi. Mae'n disgrifio sut y gwnaiff y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gyflawni eu cyfrifoldebau a llywodraethu eu sefydliadau, ar wahân ac ar y cyd, yn unol â'r saith egwyddor llywodraethu da a gydnabyddir yn rhyngwladol. Amlinellir hyn yn y *Fframwaith Gyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol* a gyhoeddwyd gan CIPFA / SOLACE yn 2016.
- 2.2 Paratowyd y Cod drafft mewn cydweithrediad gydag ystod eang o gydweithwyr ledled yr Heddlu a SCHTh. Ystyriwyd y Cod drafft gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Heddlu ar 25 Chwefror a'r Bwrdd Cyd Lywodraethu ar 30 Mawrth. Rhannwyd y Cod drafft hefyd gydag aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer adolygiad a sylw. Mae'r Cod bellach wedi'i gwblhau, ac mae'r drafft terfynol wedi'i adolygu gan Gyfreithiwr yr Heddlu er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon cadarn ac yn eglur o safbwynt cyfreithiol.
- 2.3 Cymeradwywyd y Cod yn ffurfiol gan y Comisiynydd ar 24ain o Fehefin a'r Prif Gwnstabl ar 13 Mai 2020. Mae'r Cod bellach ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan SCHTh.

3. Cynllun Dirprwyo'r Prif Gwnstabl

- 3.1 Mae'r Cynllun Dirprwyo wedi'i baratoi i roi fframwaith ar gyfer sicrhau fod busnes Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei gyflawni'n gyfreithiol, yn effeithlon ac yn effeithiol. Gwneir hyn drwy amlinellu pwy sydd gan awdurdod o fewn yr Heddlu er mwyn arfer grymoedd a swyddogaethau penodol ar ran y Prif Gwnstabl. Mae'r Cynllun Dirprwyo, felly, yn anelu i sicrhau nad yw penderfyniadau'n cael eu hoedi'n ddiangen ac y gwneir penderfyniadau ar y lefel briodol.
- 3.2 Mae'r Cynllun Dirprwyo yn amlinellu'r:
 - Prif Rolau a Chyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl;
 - Grymoedd a Swyddogaethau a Gedwir gan y Prif Gwnstabl (gan gynnwys y materion a ddylid cael eu cyfeirio at y Prif Gwnstabl am benderfyniad);
 - Grymoedd a Swyddogaethau a Ddirprwir i'r Dirprwy Brif Gwnstabl, Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwyr Cyllid ac Adnoddau (gan gynnwys swyddogaethau statudol y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fel Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl);
 - Dirprwyaethau Ariannol;
 - Grymoedd a Swyddogaethau Dirprwyol (er enghraifft, o ran caniatáu, adnewyddu a diddymu tystysgrifau drylliau tanio a gynnau haels).



- 3.3 Mae'r Cynllun Dirprwyo yn seiliedig ar enghreifftiau sy'n deillio o Heddluoedd eraill. Mae wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd, Swyddog Polisi a Llywodraethu a chydweithwyr eraill er mwyn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau'r Heddlu. Mae'r Cynllun Dirprwyo hefyd wedi'i adolygu gan Gyfreithiwr yr Heddlu er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon cadarn ac yn eglur o safbwynt cyfreithiol.
- 3.1 Mae'r Cynllun Dirprwyo wedi'i baratoi i roi fframwaith ar gyfer sicrhau fod busnes Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei gyflawni'n gyfreithiol, yn effeithlon ac yn effeithiol. Gwneir hyn drwy amlinellu pwy sydd gan awdurdod o fewn yr Heddlu er mwyn arfer grymoedd a swyddogaethau penodol ar ran y Prif Gwnstabl. Bydd copi o'r Cynllun Dirprwyo ar gael i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio unwaith y caiff ei gymeradwyo.

4. Adnewyddu Strwythur Llywodraethu'r Heddlu

- 4.1 Mae Strwythur Llywodraethu'r Heddlu wedi'i adnewyddu yn dilyn ymgynghoriad helaeth ar gynigion drafft gyda chydweithwyr ledled yr Heddlu a SCHTh, ynghyd ag aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio. Ystyriwyd y cynigion drafft gan Dîm Uwch Arweinyddiaeth yr Heddlu ar 2 Mehefin a'r Bwrdd Cyd Lywodraethu ar 15 Mehefin.
- 4.2 Ar adeg ysgrifennu, roedd nifer o newidiadau i Strwythur Llywodraethu'r Heddlu i fod i gael eu cymeradwyo gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Heddlu ar 14 Gorffennaf 2020. Roedd hyn yn unol â'r broses a gytunwyd ar gyfer comisiynu a datgomisiynu cyfarfodydd Llywodraethu'r Heddlu (gweler Adran 5 isod am wybodaeth bellach o ran y broses). Mae'r newidiadau hyn wedi'u llunio i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Strwythur Llywodraethu'r Heddlu. Fodd bynnag, gofaldwyd wedi'i gymryd i gyflwyno newidiadau sy'n caniatáu gwelliannau i'w gwneud gyda chyn lleied o aflonyddwch. Amlinellir y prif newidiadau isod:
- Mae'r strwythur adnewyddadwy yn egluro rôl y gwahanol fyrddau ac is-grwpiau o ran llywodraethu a rheoli'r Heddlu drwy'u categoreiddio nhw yn ôl eu prif swyddogaeth – Byrddau Gwneud Penderfyniadau; Byrddau Llywodraethu a Sicrwydd; Byrddau Cynllunio a Chyflawni; neu Grwpiau Rheoli Ledled yr Heddlu.
 - Mae'r strwythur adnewyddadwy yn egluro trefniadau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau drwy ddangos y llwybrau hysbysu, dwysau penderfyniadau a llwybrau rhannu gwybodaeth rhwng y gwahanol fyrddau.
 - Mae'r strwythur adnewyddadwy hefyd yn cynnwys byrddau newydd (e.e. Grŵp Prif Swyddogion, Bwrdd Adfer Strategol) ac mae rhai byrddau wedi cael eu hail-gyflunio i fodloni anghenion busnes yr Heddlu'n well. Mae rhai cyfarfodydd hefyd wedi'u hailenwi i gyflawni mwy o gysondeb ledled y strwythur.
- 4.3 Mae Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi'i gymeradwyo ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli, Grŵp Prif Swyddogion ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Mae gwaith ar y gweill i adolygu (ac adnewyddu lle bo'n briodol) Cylch Gorchwyl y byrddau lefel uchel eraill .

5. Proses Comisiynu a Datgomisiynu Cyfarfodydd Llywodraethu'r Heddlu

- 5.1 Mae proses wedi'i pharatoi ar gyfer comisiynu a datgomisiynu cyfarfodydd sy'n syrthio o fewn Strwythur Llywodraethu'r Heddlu. Nod y broses hon yw cynnal uniondeb ac effeithiolrwydd strwythur llywodraethu'r Heddlu drwy:



- Sicrhau fod cyfarfodydd yn unioni'n llawn â gweledigaeth, blaenoriaethau ac anghenion busnes yr Heddlu,
- Atal cyfarfodydd rhag cael eu sefydlu mewn modd neilltuol,
- Atal cyfarfodydd rhag cael eu cynnal yn ddiangen,
- Caniatáu trosolwg a chydlynu canolog effeithiol o gyfarfodydd yr Heddlu.

Trafodwyd a chymeradwywyd y prosesau gan y Bwrdd Cyd Lywodraethu ar 30 Mawrth.

6. Templed a Chanllaw Cylch Gorchwyl

- 6.1 Mae templed a chanllaw corfforaethol newydd ar gyfer Cylch Gorchwyl wedi'i baratoi. Mae'r canllaw yn amlinellu'r wybodaeth safonol a ddylid cael ei chynnwys o dan bob adran o'r templed corfforaethol er mwyn sicrhau fod y Cylch Gorchwyl yn eglur, cadarn, manwl ac addas i'r diben.
- 6.2 Mae'r canllaw hefyd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifenyddiaeth, Aelodau a Mynychwyr. Bydd Cylch Gorchwyl bob cyfarfod yn y strwythur llywodraethu newydd yn cael ei baratoi yn y fformat newydd maes o law.

7. Bwrdd Prosiectau

- 7.1 Mae'r Bwrdd Prosiectau wedi parhau i gyfarfod yn bell bob pythefnos i adolygu cynnydd a siapio'r prif feysydd gwaith a amlinellir uchod. Aelodau'r Bwrdd Prosiectau yw:
- Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol (Cadeirydd)
 - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
 - Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes
 - Rheolwr Llywodraethu Dros Dro (Rheolwr Prosiect tan fis Mehefin)
 - Swyddog Polisi a Llywodraethu (Rheolwr Prosiect o fis Gorffennaf)
- 7.2 Gadawodd y Rheolwr Llywodraethu Dros Dro'r Heddlu ddiwedd mis Mehefin. Gosodwyd trefniadau trosglwyddo manwl cyn ymadawiad y Rheolwr Llywodraethu Dros Dro er mwyn sicrhau y trosglwyddwyd holl wybodaeth berthnasol a gweithrediadau'n weddill i'r Swyddog Polisi a Llywodraethu er mwyn gallu trosglwyddiad di-dor a sicrhau parhad o'r ymdriniaeth.
- 7.3 Gwnaiff y Bwrdd Prosiectau barhau i gyfarfod bob pythefnos er mwyn sicrhau fod y gweithrediadau sy'n weddill yn cael eu cyflawni'n llawn.

8. Argymhelliad

- 8.1 Gwahoddir y Cydbwyllgor Archwilio i nodi'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yma.



Atodiad 1

Argymhelliad 1	Gweithredwyd
Argymhelliad 2	Gweithredwyd
Argymhelliad 3	Gweithredwyd
Argymhelliad 4	Gweithredwyd
Argymhelliad 5	Gweithredwyd
Argymhelliad 6	Gweithredwyd
Argymhelliad 7	Gweithredwyd
Argymhelliad 8	Gweithredwyd
Argymhelliad 9	Gweithredwyd
Argymhelliad 10	Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd
Argymhelliad 11	Gweithredwyd
Argymhelliad 12	Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd
Argymhelliad 13	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 14	Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd
Argymhelliad 15	Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd
Argymhelliad 16	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 17	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 18	Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd
Argymhelliad 19	Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd
Argymhelliad 20	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 21	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 22	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 23	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 24	Gweithredwyd
Argymhelliad 25	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 26	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 27	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021
Argymhelliad 28	I'w weithredu erbyn mis Mawrth 2021



Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 30/07/2020

Teitl:	Bwrdd Cyd Lywodraethu
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid
Diben yr adroddiad:	Diweddariad
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> X Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Cynlluniau i fonitro gweithredu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd diwygiedig• Ystyried argymhellion o ran llywodraethu corfforaethol o TIAA, Archwilio Cymru a HMICFRS
Argymhellion:	<ul style="list-style-type: none">• Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.• Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais.• Aelodau i adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.
Effaith cofrestr risgiau:	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu a ymgwymerwyd yn 2019/20. Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r Llawlyfr Llywodraethu.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'u heithrio o ddadleniad:	Dim

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO



30 Gorffennaf 2020

Bwrdd Cyd Lywodraethu

Adroddiad gan Brif Swyddog Cyllid y Comisiynydd
Heddlu a Throsedd



1. Cefndir

- 1.1. Ffurfiwyd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn 2014 er mwyn dogfennu trefniadau llywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru.
- 1.2. Gohiriwyd y Bwrdd am gyfnod yn ystod 2019 gan y bwriadwyd i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan y Bwrdd Sicrwydd. Serch hynny, ar ôl ystyriaeth bellach, ac yn dilyn Adolygiad Llywodraeth a ddigwyddodd yn ystod 2019-20, penderfynwyd ail-sefydlu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu gyda Chylch Gorchwyl adolygedig.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.
- 2.2. Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais.
- 2.3. Aelodau i adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

- 3.1. Yn unol â'r Cylch Gorchwyl newydd nid yw'r Bwrdd Cyd Lywodraethu bellach angen ystyried gwaith y Fframwaith Llywodraeth ymhob cyfarfod. Bwriedir diweddar hyn ar wahân, a chaiff ei ystyried gan y Bwrdd Cyd Lywodraethu bob gwanwyn, cyn paratoi datganiadau Llywodraethu Blynyddol.
- 3.2. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2020, trafodwyd y canlynol:

3.2.1. Cylch Gorchwyl

Cytunodd y Bwrdd ar ei Gylch Gorchwyl, gan ychwanegu arolygiaeth trefniadau effeithiol ac effeithlon

3.2.2 Adolygiad Llywodraeth

Cyflwynwyd y Bwrdd gyda strwythur llywodraethau sydd eisoes yn bodoli, a'r strwythur diwygiedig a argymhellwyd gan yr adolygiad llywodraethu diweddar.

Wrth i'r strwythur newydd gael ei weithredu, bydd y cynnydd gael ei fonitro gan y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

Mae'n bwysig nodi, er bod y strwythur newydd wedi cael ei gymeradwyo, mae angen sicrhau bod y trefniadau yn aros yn addas at bwrpas. Wrth i'r sefydliad barhau i ddatblygu, mae'n bosib y bydd anghenion y llywodraethu yn newid, ac felly bydd angen adolygu'r strwythur arfaethedig yn barhaus. Yn ychwanegol, gall cyfrifoldeb y Bwrdd i asesu trefniadau asesu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd arwain at newidiadau yn y dyfodol i'r strwythur llywodraethu arfaethedig.

3.2.3 Argymhellion Archwilio

Cyflwynwyd yr holl argymhellion a nodiadau briffio cleientiaid i'r bwrdd gan Archwilio Mewnol, a'r cynnydd tuag at eu gweithredu.

Datryswyd y byddai'r eitem hon yn y dyfodol yn canolbwyntio ar yr eitemau hynny sy'n effeithio ar lywodraethu. Felly, byddai'r argymhellion a'r gweithrediadau sy'n codi o archwiliadau yn cael eu cyfyngu i'r rhai hynny sy'n berthnasol i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu. Fodd bynnag, gan fod nodiadau briffio cleientiaid fel arfer ynghylch llywodraethu, darperir y rhain i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu'n llawn.

3.3. Bydd y cyfarfod nesaf ar 5 Awst 2020.

4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu gan dalu sylw i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd. Ystyrir cydraddoldeb o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.2	Ariannol	Mae'r ffordd y rheolir cyllid yn rhan annatod o lywodraethu da. Ystyrir polisiâu ariannol a monitro systemau ariannol a pherfformiad o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.3	Cyfreithiol	Mae'n ofyniad cyfreithiol cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon bob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw cofnodi gweithgareddau llywodraethu corfforaethau undyn (a sicrhau y caiff unrhyw bryderon sylw) fel bod y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn cael eu paratoi'n gywir ac yn amserol.
4.4	Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol	Caiff polisiâu amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017.
4.5	Risg	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.6	Cynllun Heddlu	Mae'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sylfaenol

	a Throsedd	bwysig i'r ddwy gorfforaeth undyn. Ystyrir y ffordd y caiff hyn ei fonitro o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
--	---------------	--


Awdur yr Adroddiad

Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid, SCHTh



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach

NORTH WALES POLICE
A safer North Wales



Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio

2019 / 20

Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio – 2019 / 20

Mynegai

Datganiad gan y Cadeirydd

- 1. Trosolwg**
- 2. Gwaith y Cydbwyllgor yn ystod 2019/20**
- 3. Archwilio Mewnol**
- 4. Archwilio Allanol**
- 5. Meysydd i'w Hystyried**
- 6. Llywodraethu**
- 7. Adroddiad Rheoli Risg a Rheolaethau**
- 8. Gwerth am Arian**
- 9. Adrodd Ariannol**
- 10. Codi Pryderon**
- 11. Cynllun Ymlaen a Dyddiadau Cyfarfodydd 2020/21**

Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio – 2019/20

Datganiad y Cadeirydd

Fel Cadeirydd y Cydbwyllgor, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor ('y Cydbwyllgor') Archwilio; 'y CA') sy'n gofalu am weithgarwch am y cyfnod 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020.

Yr aelodau o'r CA a wasanaethodd am y flwyddyn o dan adolygiad oedd:-

Enw
Rachel Barber
John Cunliffe
Claire Hodson
Dianne Walker
Jim Illidge (ymddiswyddodd ym mis Tachwedd 2019)

Roedd Jim Illidge yn Gadeirydd hyd nes iddo ildio'r swydd ym mis Tachwedd 2019. Dyna pryd y gwnes i gymryd y rôl.

Mae cylch gwaith y CA yn cynnwys monitro trefniadau llywodraethu, sicrwydd rheolaethau a rheoli risg ac ar gyfer goruchwyllo'r broses o gynhyrchu a chymeradwyo adroddiadau ariannol diwedd blwyddyn a chyfrifon ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ('HGC') a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ('SCHTh').

Yn ystod y flwyddyn cafodd y CA adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ('TIAA') ar eu rhaglen arolygu y cytunwyd arnynt ac adolygodd gynnydd ar gamau gweithredu a nodwyd yn eu hadroddiadau. Yn ystod 2019/20, nid oedd problemau sylweddol a godwyd gan y Cydbwyllgor i'r SCHTh neu Brif Gwnstabl HGC ('PGHGC').

Yn ogystal â dibynnu ar adroddiadau'r archwilwyr allanol ('SAC') ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, ystyriodd y Cydbwyllgor yr holl ddogfennau a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh a Chyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau Heddlu Gogledd Cymru ('y Swyddogion Cyllid'). Y Swyddogion Cyllid a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn oedd:-

Cyfnod	Rôl	Enw
1 Ebrill '19 – 31 Mawrth 2020	Prif Swyddog Cyllid – CHTh	Kate Jackson
1 Ebrill '19 – 30 Hydref 2019	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau – HGC	Richard Muirhead
1 Tach '19 – 17 Tach '19	Pennaeth Cyllid – Dirprwy Swyddog Cyllid	Guto Edwards
1 Tach '19 – 31 Mawrth 2020	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau – HGC	Seb Phillips

Ymhlith yr enghreifftiau o weithgareddau penodol y mae'r CA wedi ymgymryd â hwy i hwyluso proses o nodi, adolygu ac asesu unrhyw faterion o bwys mae:

- Adolygiad o'r datganiadau ariannol blynyddol sy'n canolbwyntio'n benodol ar bolisiau ac arferion cyfrifo, ac addasiadau sylweddol yn deillio o archwilio adroddiad blynyddol 18/19
- Cael sicrwydd ynghylch cydymffurfio â'r polisi ar safonau ymddygiad busnes
- Cael sicrwydd am y broses a ddilynir ar gyfer datblygu'r adroddiad blynyddol
- Ysgogi'r adolygiad a'r ymdriniaeth i reoli risgiau
- Annog ac adolygu cynnydd a chanlyniadau'r prosiect Llywodraethu i gyflawni canlyniad sy'n cynnwys trefniadau a strwythurau llywodraethu effeithiol, effeithlon a chadarn.

Hoffwn estyn fy ngwerthfawrogiad i holl staff cynorthwyol ac uwch swyddogion sydd wedi arwain y CA drwy ei drosolwg. Rwyf hefyd yn diolch i'r archwilwyr allanol a mewnol, y timau o SAC a TIAA, am eu hadroddiadau a chyfraniadau i'r cyfarfodydd. Mae'r ddeialog barhaus hon wedi cynorthwyo i ddatblygu'r fframweithiau o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu.

Rachel Barber
Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio

Ebrill 2020

1. Trosolwg

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Archwilio adrodd yn flynyddol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) a Phrif Gwnstabl HGC yn amlinellu'r gwaith y mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn. Tynnir hefyd sylw, lle bo angen, at unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Mae **Atodiad 1** yn nodi Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor. Mae Aelodaeth y Cydbwyllgor yn cynnwys aelodau allanol ac annibynnol.

Diben y CA yw rhoi cyngor ac argymhelliad annibynnol i'r CHTh a PGHGC ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol. Trwy hynny, cynorthwyr i sicrhau fod effeithlonrwydd a threfniadau sicrhau effeithiol ar waith. I'r perwyl hwn, mae'r Cydbwyllgor yn gallu ac mae gofyn iddo oruchwylio a darparu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risgiau a rheoli SCHTh a'r Heddlu, y broses adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol, ac archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r CA yn gyfrifol am adolygu'r systemau llywodraethu, rheoli, rheoli risg a sicrwydd yn annibynnol. Mae gweithgarwch y Cydbwyllgor yn cwmpasu holl agenda llywodraethu'r sefydliad, ac nid cyllid yn unig. Mae gan y Cydbwyllgor ddyletswydd hefyd i fonitro uniondeb y datganiadau ariannol a'r adroddiadau cysylltiedig.

Yn ystod 2019-20 cyfarfu'r Cydbwyllgor bedair gwaith yn gyhoeddus yn unol â'i amserlen arfaethedig:-

- 31 Gorffennaf 2019
- 23 Medi 2019
- 28 Tachwedd 2019
- 9 Mawrth 2020

Mae gan yr Archwilwyr Allanol, yr Archwilwyr Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion Cyllid wahoddiad sefydlog i fynychu pob cyfarfod a gwneud hynny'n rheolaidd. Yn ogystal, gwahoddwyd swyddogion y SCHTh a'r Heddlu i fod yn bresennol fel sy'n briodol i'r agenda. Mae manylion y rhai hynny a wahoddwyd i gyfarfodydd y Cydbwyllgor wedi'u rhestru yn **Atodiad 2**.

Efallai y bydd Aelodau'r Cydbwyllgor yn cyfarfod â'r Archwilwyr Allanol a Mewnol y tu allan i'r amserlen cyfarfod ffurfiol. Rhoddwyd trefniant ar waith i'r Cydbwyllgor Archwilio gyfarfod â'r archwilwyr cyn pob cyfarfod heb reolwyr na swyddogion yn bresennol.

2. Gwaith y Cydbwyllgor yn ystod 2019/20

Drwy gydol 2019/20, cyflwynodd y Cydbwyllgor adroddiad ar natur a chanlyniadau ei waith i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan dynnu sylw at unrhyw feysydd y dylid tynnu eu sylw atynt.

Ymhlith rhai o'r themâu datblygu allweddol a drafodwyd mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn oedd:

- Goruchwyllo'r Adolygiad Llywodraethu
- Datblygu'r prosesau Sicrwydd Risg ymhellach
- Fframwaith y Pwyllgor Moeseg i gynorthwyo gwneud penderfyniadau moesegol
- Adolygiad o Strategaeth Rheoli'r Fflyd
- Adolygiad o Reolwyr Caffael a Chytundebau
- Cymryd rhan wrth ddatblygu'r rhaglen archwilio fewnol, gan gynnwys archwiliadau cydweithredol
- Adolygiad o effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol.

Mae **Atodiad 3** yn amlinellu'r rhaglen waith o ran y Cynllun Archwilio Mewnol a gynhaliwyd yn 2019/20 a chanlyniad yr archwiliadau hyn, ynghyd â'r rhestr archwilio arfaethedig ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hyd at fis Mawrth 2023.

Cynhaliwyd adolygiad hunanwerthuso ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y CA rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019. Cafodd bob aelod o'r CA a Swyddogion Cyllid drafodaeth strwythuredig gyda Chadeirydd y CA. Mae gwelliannau a gytunwyd wedi'u rhannu a'u dyrannu i'w gweithredu ac mae ymarfer dilynol yn cael ei gynnal ar ddyddiad yr adroddiad hwn.

3. Archwilio Mewnol

Drwy gydol y flwyddyn, cynorthwyr y CA yn ei waith gan y rhaglen archwilio mewnol sy'n gwerthuso ac yn cyfrannu at y gwaith o wella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Mae'r gwaith archwilio mewnol yn darparu archwilio, gwerthuso ac adrodd gwrthrychol ar ddigonolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae pob archwiliad mewnol o fewn y rhaglen flynyddol yn alinio risgiau strategol y Fframwaith Sicrwydd sy'n cefnogi'r ddarpariaeth sicrwydd gwrthrychol yn erbyn rheoli'r risgiau. Mae canfyddiadau allweddol yr archwiliadau mewnol yn cael eu hadrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio. Mae hyn yn cynnwys sylwadau ar briodoldeb rheolaethau allweddol mewn perthynas â'r risgiau, cryfder y sicrwydd a ddarperir ar gyfer pob risg yn ogystal ag addasrwydd y gweithredoedd lliniaru risg ychwanegol.

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor sicrhau bod swyddogaeth archwilio fewnol effeithiol. Gwneir hyn drwy adolygu a chymeradwyo'r cynlluniau archwilio mewnol a chynlluniau gwrth-dwyll sy'n seiliedig ar risg. Yn ystod y cyfnod adrodd, darparwyd y swyddogaeth archwilio fewnol gan yr Asiantaeth Archwilio Fewnol (TIAA) fel rhan o gontract dwy flynedd a ddyfarnwyd ym mis Ebrill 2019, gyda'r opsiwn i ymestyn y cyfnod am ddwy flynedd arall.

Mae archwilio mewnol hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynorthwyo'r Prif Weithredwr i sicrhau amgylchfyd rheoli effeithiol. Mae ganddo raglen waith wedi'i diffinio'n glir sy'n cynnwys gwaith cynghori yn ogystal ag archwilio.

Gwnaeth y Cydbwyllgor barhau i oruchwyllo a rhoi mewnbwn i ddatblygiad y rhaglen archwilio mewnol flynyddol. Mae'r Cydbwyllgor a rhanddeiliaid eraill, yn ystod 19/20, wedi awgrymu diwygiadau i'r rhaglen sydd wedi'u hymgorffori. Gohiriwyd dau archwiliad yn ystod y flwyddyn gyda sêl bendith y CA. Cadarnhawyd fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn fodlon fod y dyddiau hyn, heb eu defnyddio, yn cael eu cario drosodd i 2020/21.

Ym mis Mawrth 2020 gwnaeth y Cydbwyllgor adolygu a chymeradwyo cynllun strategaeth a chynllun archwilio mewnol blynyddol 2020/21.

4. Archwilio Allanol

Darperir cytundeb yr archwilio mewnol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel y penodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Derbyniwyd datganiad annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd gan y Cydbwyllgor gan SAC.

Mae canllawiau polisi clir ar waith ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio gan yr Archwiliwr Allanol. Mae mesurau diogelu ar waith sy'n sicrhau bod y Cydbwyllgor yn cael gwybod am gwmpas a gwerth gwaith ychwanegol a gomisiynir gan yr Archwilywr Allanol. Ni wnaed unrhyw waith arall nad oedd yn archwilio gan yr Archwilywr Allanol o fewn y flwyddyn.

Rhoddodd yr archwilywr allanol eu barn ddiweddaraf ar eu hymagwedd archwilio seiliedig ar risg a'u meysydd allweddol o ffocws yn yr archwiliad diwedd blwyddyn drwy adroddiad technegol a diweddariad, gan alluogi'r Cydbwyllgor Archwilio i ofyn cwestiynau a cheisio cyngor yn ôl yr angen. Roedd y prif risgiau a nodwyd a allai effeithio ar y datganiadau ariannol yn 2018/19 yn cynnwys diystyru rheolaethau gan reolwyr.

Mae'r CA wedi adolygu gwaith yr Archwilywr Allanol ac mae'n fodlon bod y gwasanaeth archwilio allanol o safon ddigon uchel a bod y ffioedd yn briodol ac yn rhesymol. Y ffi archwilio allanol ar gyfer 2019/20 oedd £86,866 ynghyd â TAW.

Ym mis Mawrth 2020 gwnaeth y Cydbwyllgor adolygu a chymeradwyo cynllun blynyddol 2020/21 Swyddfa Archwilio Cymru. Y ffi archwilio allanol fydd £83,866. Wrth i'r CA baratoi ar gyfer gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2020/21, gwnaeth y Swyddfa rannu'r risgiau allweddol fel a ganlyn: Rheolwyr yn diystyru rheolaethau, barn McCloud ac effaith ar bensiynau a phrydlesi IFRS16, risgiau ar ôl gweithredu.

5. Meysydd i'w Hystyried

Yn ein rôl fel Aelodau'r CA, rydym yn ymgymryd â nifer o weithgareddau y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol a drefnwyd ar faterion sy'n ymwneud â'r Cydbwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd â'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion Ariannol, Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ac Archwilywr Mewnol ac Allanol a chyfarfodydd pwyllgor penodol sy'n berthnasol i feysydd ffocws arbenigol Aelod fel y'u nodir isod:

Enw	Maes Ffocws
Claire Hodson	Llywodraethu
Rachel Barber	Cadeirydd, Risg
John Cunliffe	TG, Systemau a Diogelwch Seiber
Dianne Walker, FCA	Adrodd ariannol
Jim Illidge	Cadeirydd

6. Llywodraethu

Derbyniwyd drafft cychwynol y datganiad llywodraethu blynyddol o ran 2018-19. Fe'i trafodwyd gan y CA yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2019. Gwnaeth aelodau'r CA ac Archwilio Mewnol wneud sylwadau ar y drafft hwn mewn pryd ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'w ymgorffori cyn ei gyflwyno'n derfynol i'r CA yn ei gyfarfod ar 30 Gorffennaf 2019. Derbyniwyd y datganiad llywodraethu blynyddol cyflawn a therfynol gan y CA yn ei

gyfarfod ar 30 Gorffennaf 2019. Derbyniwyd a thrafodwyd drafft cychwynnol y datganiad llywodraethu blynyddol o ran Cyfrifon Statudol 2019/20 yn y cyfarfod ar 9 Mawrth 2020.

Gwnaeth y Bwrdd Cyd Lywodraethu gyfarfod yn ystod 2019-2020. Ei ddiben yw ystyried y fframwaith cyd lywodraethu cyffredinol a sicrhau fod y CHTh a'r PG yn cyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys uwch swyddogion SCHTh a'r Heddlu a Phennaeth Archwilio Mewnol. Mae aelodau'r CA wedi mynychu rhai cyfarfodydd o'r bwrdd. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i bob cyfarfod CA ar waith y bwrdd. Yng nghyfarfod y Bwrdd Cyd Lywodraethu ar 3 Awst 2019, datryswyd i uno gwaith y bwrdd hwn gyda gwaith Bwrdd Sicrwydd Heddlu Gogledd Cymru gyda'r bwriad o symleiddio'r broses. Yn ystod 2019/20 gwnaeth prosiect Adolygu Llywodraethu, a anogwyd gan y CA, ddechrau i gyflawni canlyniad sy'n cynnwys trefniadau a strwythurau llywodraethu effeithiol, effeithlon a chadarn. Fel rhan o'r adolygiad hwn, adferwyd y Bwrdd Cyd Lywodraethu ym mis Mawrth 2020. Nodwyd nifer o argymhellion yn ystod yr Adolygiad Llywodraethu, wrth ddatblygu a diweddarau llywodraethu, a fydd yn cael ei fonitro gan y Cydbwyllgor yn ystod 2020/21.

7. Rheoli Risg a Rheolaethau

Enwebwyd aelod o'r CA i gysylltu â'r Rheolwr Risg cyn pob cyfarfod i drafod y broses rheoli risg a gweithgaredd risg yn fanwl. Mae aelodau'r CA yn gallu cael gafael ar holl gofrestrau risg y SCHTh a'r Heddlu cyn eu cyfarfodydd ffurfiol.

Mae'r CA yn canolbwyntio ar y gofrestr risg strategol gyfunol ac yn ceisio sicrwydd ei fod yn rhesymol, yn gynhwysfawr ac yn ddeinamig. Mae hefyd yn gwirio bod y risg weddilliol yn cyd-fynd ag archwaeth risg y ddau sefydliad. Ym mhob cyfarfod o'r CA mae aelodau'n derbyn ac yn adolygu'r diweddiariad rheoli risg ar y broses rheoli risgiau sefydliadol.

Yn ystod rhan gyntaf 2019/20 gwnaeth y Cydbwyllgor godi pryderon parhaus am ymdriniaeth SCHTh a'r Heddlu tuag at risg a sicrwydd. Daeth hyn i benllanw gyda gweithdy pellach ym mis Rhagfyr 2019 rhwng y CA, y Prif Weithredwr, a staff allweddol. Cytunwyd ar gamau allweddol yn y cyfarfod hwn a rhoddwyd mwy o sicrwydd ym mis Ionawr ac yn ffurfiol yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2020. Mae nifer o gamau nesaf wedi'u cytuno gyda'r CA i ychwanegu at y fframwaith risgiau, sicrhau fod adnoddau wedi'u hystyried yn briodol a gosod yr ymdriniaeth at reoli risgiau ymhellach i'r diwylliant i gyflawni gwelliannau. Bydd yn cael ei fonitro gan y Cydbwyllgor yn ystod 2020/21.

Ar adeg yr ysgrifennwyd, mae pandemig y Coronafeirws gyda ni. Yn ystod 2020/21 bydd y CA yn adolygu sut yr ystyriwyd hyn wrth reoli risgiau yn y tymor byr a thymor hir.

8. Gwerth am Arian

Mae nodiadau canllaw CIPFA yn nodi mae cyfrifoldeb statudol y Prif Gwnstabl yw sicrhau Gwerth am Arian. Mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol am y cyfrifoldeb hwn. Rôl y CA yw cynorthwyo'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gyflawni eu cyfrifoldebau. Rôl y CA yw ystyried y trefniadau i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Mae'r CA wedi gofyn am wybodaeth bellach, yng nghyfarfod 9 Mawrth, ar sut y cyflawnir Gwerth am Arian ac os yw'r polisi Gwerth am Arian wedi'i adolygu a'i ddiweddarau. Bydd yr ymateb yn cael ei fonitro gan y Cydbwyllgor yn ystod 2020/21.

9. Adrodd Ariannol

Mae'r CA yn mynd ati mewn ffordd gyfannol i gyflawni ei atebolrwydd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol.

Mae enghreifftiau o weithgarwch penodol y mae'r CA wedi ymgymryd ag ef i hwyluso proses o nodi, adolygu ac asesu materion arwyddocaol mewn perthynas â Chyfrifon Statudol 2018/19 yn cynnwys y canlynol:

- mae'n ofynnol i Swyddogion Cyllid y CHTH a'r Prif Gwnstabl ddwyn i sylw'r Cydbwyllgor, yn barhaus, unrhyw newidiadau i'r polisi cyfrifyddu, materion arwyddocaol yn ymwneud ag adroddiadau ariannol, amcangyfrifon a dyfarniadau, a thrafodion arwyddocaol, sicrhau bod y cyfrifon blynyddol wedi'u paratoi yn unol â pholisïau cyfrifyddu;
- adolygodd y Cydbwyllgor uniondeb y Datganiadau Ariannol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a chydymffurfiaeth â'r polisi cyfrifyddu ac unrhyw addasiadau arwyddocaol;
- cafodd y Cydbwyllgor adroddiadau gan y Prif Swyddogion Cyllid yn manylu ar achosion o dorri amodau a hepgor y broses gaffael a sicrwydd ar gydymffurfiaeth â cholledion a phrosesau taliadau arbennig;
- derbyniodd ac adolygodd y Cydbwyllgor yr Adroddiad Blynyddol drafft a'r Datganiadau Ariannol i baratoi ar gyfer eu harwyddo ym mis Gorffennaf 2019.
- Adolygodd y Cydbwyllgor yr Adroddiad Blynyddol (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol), y Datganiadau Ariannol Blynyddol a'r Cyfrif Ansawdd er mwyn darparu gwiriad cysondeb a rhesymoldeb;
- cyflwynodd y Swyddogion Cyllid bapurau manwl i'r Cydbwyllgor ar y broses cyfrifon blynyddol yn ystod y cyfnod adrodd diwedd blwyddyn;
- ystyriodd y Cydbwyllgor adroddiad ISA260 yr archwilydd allanol a barn archwilio heb ei haddasu. Ni thynnwyd sylw at unrhyw wahaniaeth barn gyda'r dyfarniadau rheoli allweddol;
- ystyriodd y Cydbwyllgor farn TIAA mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad, a oedd yn darparu Sicrwydd Sylweddol yn gyffredinol.

O'i waith llwyddodd y CA i ddod i'r casgliad:

- bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn cynrychioli barn deg a rhesymol am sefyllfa ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl;
- ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i bolisi cyfrifyddu;
- roedd y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â safonau adrodd ariannol;
- adolygwyd meysydd yr oedd angen dyfarniadau sylweddol arnynt wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu;
- ni chafwyd unrhyw drafodion arwyddocaol nac anarferol yn ystod y flwyddyn.

10. Codi Pryderon

Nod yr Heddlu yw creu amgylchfyd lle mae staff yn teimlo ei bod yn ddiogel codi a thrafod pryderon a gwendidau yn agored. Mae hyn er mwyn gallu sefydlu'r cynlluniau gweithredu priodol ar gyfer ymateb a'u monitro i'w rhoi ar waith. Yn ystod 2019/20, cafodd y CA sicrwydd yn erbyn y system ar gyfer codi pryderon fel rhan o'i amserlen busnes. Bydd hyn yn parhau yn 2020/21.

11. Cynllun Ymlaen a Dyddiadau Cyfarfodydd 2020/21

Yn ystod 2020/21 y CA gyflawni ei Gylch Gorchwyl ac yn fwy penodol:

- Dilyn ac adolygu cynnydd cynllun gweithredu adolygu Llywodraethu
- Monitro cyflawni'r camau nesaf a gytunwyd i gryfhau'r ymdriniaeth â Rheoli Risgiau a rheolaethau. Rheoli a gosod hyn i ddiwylliant y sefydliad
- Adolygu sut y mesurir a chyflawnir gwerth am arian.
- Cyflawni'r cynllun gweithredu sy'n tarddu o'i adolygiad effeithiolrwydd hunanwerthuso blynyddol

Mae gan y CA bedwar cyfarfod wedi'i gynllunio yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21:-

- 30 Gorffennaf 2020
- 5 Hydref 2020
- 10 Rhagfyr 2020
- Mawrth 2021 (i'w gadarnhau)

Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl

Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio

1. Datganiad Diben

- 1.1 Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn rhan allweddol o Lywodraethu corfforaethol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) a'r Prif Gwnstabl (PG) ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'n rhoi pwyslais annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu da a safonau ariannol.
- 1.2 Diben y Cydbwyllgor Archwilio yw rhoi cyngor ac argymhelliad annibynnol i'r CHTh a'r PG ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol, a thrwy hynny yn cynorthwyo i sicrhau effeithlonrwydd a threfniadau sicrhau effeithiol ar waith. I'r perwyl hwn, mae'r Cydbwyllgor wedi'i alluogi, ac mae'n ofynnol iddo, oruchwylio a darparu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh), a fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Heddlu, a'r broses adrodd llywodraethu blynyddol, ac archwilio mewnol ac allanol.
- 1.3 Mae'r cylch gorchwyl hwn yn crynhoi swyddogaethau craidd y Cydbwyllgor mewn perthynas â'r SCHTh ac i'r Heddlu, ac yn disgrifio'r protocolau sydd ar waith i'w alluogi i weithredu'n annibynnol, yn gadarn ac yn effeithiol.

2. Llywodraethu, risg a rheoli

- 2.1 Bydd y Cydbwyllgor yn rhoi cyngor ac argymhellion i'r CHTh a'r PG mewn perthynas â'r meysydd canlynol:
 - 2.1.1 Adolygu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol yn erbyn y fframwaith llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, ac ystyried y cod llywodraethu lleol.
 - 2.1.2 Adolygu'r datganiadau llywodraethu corfforaethol blynyddol cyn eu cymeradwyo ac ystyried a ydynt yn adlewyrchu'n briodol yr amgylchedd llywodraethu, risg a rheoli a chefnogi sicrwydd a nodi unrhyw gamau y mae angen eu cymryd er mwyn gwella.
 - 2.1.3 Ystyried y trefniadau i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.
 - 2.1.4 Ystyried y fframwaith o sicrwydd a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau a blaenoriaethau'r SCHTh a'r Heddlu.
 - 2.1.5 Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheoli risg, adolygu'r proffil risg, a monitro cynnydd y CHTh a'r PG wrth fynd i'r afael â materion cysylltiedig â risg a adroddir wrthynt (mae risgiau gweithredol yr heddlu unigol wedi eu heithrio'n benodol o'r gylch gwaith y Cydbwyllgor Archwilio).
 - 2.1.6 Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a monitro'r gwaith o weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.
 - 2.1.7 Adolygu'r trefniadau ar gyfer asesu risgiau twyll a niwed posibl o dwyll a llygredd a monitro effeithiolrwydd y strategaeth gwrth-dwyll, camau gweithredu ac adnoddau.
 - 2.1.8 Adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau neu gydweithrediadau sylweddol.
 - 2.1.9 Mae'r CHTh yn enwebu'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar Strategaeth a Pholisiau Rheoli'r Trysorlys.

3. Archwilio Mewnol

- 3.1 Bydd y Cydbwyllgor yn rhoi cyngor ac argymhellion i'r CHTh a'r PG mewn perthynas â'r meysydd canlynol:
 - 3.1.1 Adolygu siarter ac adnoddau'r archwiliad mewnol yn flynyddol.

- 3.1.2 Adolygu'r cynllun archwilio mewnol ac unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r cynllun archwilio mewnol.
- 3.1.3 Goruchwyllo'r penodiad ac ystyried digonolrwydd perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol a'i annibyniaeth.
- 3.1.4 Ystyried adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio mewnol, a chrynodeb rheolaidd o gynnydd gweithgarwch archwilio mewnol yn erbyn y cynllun archwilio, a'r lefel o sicrwydd y gall ei rhoi dros drefniadau llywodraethu corfforaethol.
- 3.1.5 Ystyried datganiad y Pennaeth Archwilio mewnol ynghylch cydymffurfio â'r PSIAS a'r LGAN a chanlyniadau'r QAIP sy'n cefnogi'r datganiad – bydd y rhain yn dangos dibynadwyedd casgliadau'r archwiliad mewnol.
- 3.1.6 Ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau manwl o'r fath a gall y Cydbwyllgor ofyn i'r CHTH a PG, gan gynnwys materion a godwyd neu argymhellion a wnaed gan y gwasanaeth archwilio mewnol, ymateb y rheolwyr a chynnydd gyda champau y cytunwyd arnynt.
- 3.1.7 Ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- 3.1.8 Ystyried unrhyw namau ar annibyniaeth neu wrthrychedd sy'n codi o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y tu allan i archwilio mewnol y Pennaeth Archwilio mewnol. Gwneud argymhellion ar fesurau diogelwch i gyfyngu ar namau o'r fath ac adolygu eu gweithrediad o bryd i'w gilydd.

4. Archwilio allanol

- 4.1 Bydd y Cydbwyllgor yn rhoi cyngor ac argymhellion i'r CHTH a'r PG mewn perthynas â'r meysydd canlynol:
 - 4.1.1 Cefnogi annibyniaeth yr archwiliad allanol drwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd allanol o'i annibyniaeth ac adolygiad o unrhyw faterion a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru.
 - 4.1.2 Sylw ar gwmpas a dyfnder gwaith archwilio allanol, ei annibyniaeth ac a yw'n rhoi gwerth boddhaol am arian.
 - 4.1.3 Ystyried llythyr rheoli blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
 - 4.1.4 Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunwyd gyda'r archwiliwr allanol.
 - 4.1.5 Cyngori ac argymhell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwilywr allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol eraill.

5. Adrodd Ariannol

- 5.1 Bydd y Cydbwyllgor yn rhoi cyngor ac argymhellion i'r CHTH a'r PG mewn perthynas â'r meysydd canlynol:
 - 5.1.1 Adolygu'r datganiadau cyfrifon blynyddol. Yn benodol, ystyried a ddilynwyd polisiau cyfrifyddu priodol ac a oes pryderon yn codi o'r datganiadau ariannol neu o archwilio'r datganiadau ariannol y mae angen eu dwyn i sylw'r CHTH neu'r PG.
 - 5.1.2 Ystyried adroddiad yr archwiliwr allanol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar faterion sy'n codi o archwilio'r datganiadau ariannol.

6. Trefniadau atebolrwydd

- 6.1 Bydd y Cydbwyllgor yn:
 - 6.1.1 Yn amserol, adrodd i'r CHTH a'r PG gyda'i gyngor a'i argymhellion mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n berthnasol, yn ei farn ef, i lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ariannol.
 - 6.1.2 Adrodd i'r CHTH a'r PG ar ei ganfyddiadau, ei gasgliadau a'i argymhellion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu, fframweithiau rheoli risg a

rheoli mewnol, trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwiliadau mewnol ac allanol.

6.1.3 Adolygu ei berfformiad yn erbyn ei gylch gorchwyl a'i amcanion yn flynyddol a chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwn i'r CHTh a'r PG.

6.1.4 Cyhoeddi adroddiad blynyddol o waith y Cydbwyllgor.

7. Cyffredinol

7.1 Bydd y Cydbwyllgor yn cynnwys pump o aelodau annibynnol, sy'n annibynnol i'r SCHTh a'r Heddlu.

7.2 Y cworwm ar gyfer y Cydbwyllgor fydd o leiaf dri aelod annibynnol.

7.3 Bydd y Cydbwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol drwy eithriad i drafod materion sy'n peri pryder dybryd.

Atodiad 2 – Swyddogion a wahoddwyd i'r Cydbwyllgor Archwilio

SWYDDOGION YR HEDDLU:

Seb Phillips	Pennaeth Cyllid ac Adnoddau
Guto Edwards	Pennaeth Cyllid
Helen Williams	Cyfrifydd Rheoli Ariannol
Prif Uwcharolygydd Dros Dro Simon Williams	Gwasanaethau Corfforaethol
Uwcharolygydd Paul Jones	Gwasanaethau Corfforaethol
Anne Matthews	Swyddog Cyllid a Chyllidebau
Y Prif Arolygydd Andrew Griffiths	Tîm Archwilio ac Arolygu
Darren Griffiths	Rheolwr Llywodraethu Dros Dro

SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Stephen Hughes	Prif Swyddog Gweithredol
Kate Jackson	Prif Swyddog Cyllid
Angharad Jones	Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr

Drwy Wahoddiad

Derwyn Owen	Swyddfa Archwilio Cymru
Michelle Phoenix	Swyddfa Archwilio Cymru
Helen Cargill	TIAA

Atodiad C: Cynnydd yn erbyn cynllun gwaith 2019 – 2020

System	Chwarter Arfaethedig	Dyddiau	Statws Cyfredol	Sylwadau
Uned Reoli Ganolog	1	8	Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol 16 Mai 2019	Cyflwynwyd i CA mis Gorffennaf 2019
Llywodraethu – Ymgysylltiad Cymunedol	1	10	Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol 17 Gorffennaf 2019.	Cyflwynwyd i CA mis Medi 2019
Asedau Sefydlog	1	6	Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol 29 Gorffennaf 2019.	Cyflwynwyd i CA mis Medi 2019
Rheoli'r Trysorlys	3	6	Cyhoeddi adroddiad terfynol 20 Medi 2019	Cyflwynwyd i CA mis Tachwedd 2019
Rheoli Ansicrwydd – Lliniaru'r Rheolaethau	3	4	Cyhoeddi adroddiad terfynol 30 Medi 2019	Cyflwynwyd i CA mis Tachwedd 2019
Rheolaeth Gyllidebol	3	6	Cyhoeddi adroddiad terfynol 8 Hydref 2019	Cyflwynwyd i CA mis Tachwedd 2019
Cyfriflyfr Cyffredinol	3	6	Cyhoeddi adroddiad terfynol 13 Rhagfyr 2019	
Rheolwyr AD – Strategaeth Lesiant	1	7	Cyhoeddi adroddiad terfynol 2 Ionawr 2020	
Rhaglen Gyfalaf	4	8	Cyhoeddi adroddiad terfynol 6 Chwefror 2020	
Llywodraethu – Cyfathrebiadau Corfforaethol	3 4	10	Cynlluniwyd ar gyfer 11 Tachwedd 2019 – aildrefnwyd i 23 Mawrth 2020	Cyhoeddwyd RhPM ond gohiriwyd yr archwiliad ar gais Rheolwyr tan ddiwedd chwarter 4
Rheoli Cytundebau (Prosiect Adeiladau/TGCh/Prosiect Gweithredol)	2	6	Gohiriwyd yr archwiliad – 6 diwrnod i'w drosglwyddo wrth gefn	Trafodwyd gyda Rheolwyr sydd wedi gofyn i'r dyddiau gael eu trosglwyddo wrth gefn oherwydd y nifer o archwiliadau tebyg a ymgwymerwyd yn y flwyddyn ddiwethaf.
Cydweithrediadau	2	8	Gohiriwyd yr archwiliad – 8 diwrnod i'w drosglwyddo wrth gefn	Gohiriwyd hwn ar gais y Rheolwyr oherwydd archwiliad cydweithredol SAC.
Rheoli Newid TGCh	3 4	8	Cynlluniwyd ar gyfer 9 Rhagfyr 2019 – yn awr yn digwydd w/d 10 Chwefror 2020	Gohiriwyd oherwydd diffyg argaeledd staff TG ar y dyddiad a gynigiwyd. Cyhoeddwyd RhPB a chadarnhawyd dyddiad newydd.
Rheoli Risg – Sicrwydd i'r Bwrdd	4	8	Cynlluniwyd ar gyfer 17 Chwefror 2020	Cyhoeddwyd RhPB

System	Chwarter Arfaethedig	Dyddiau	Statws Cyfredol	Sylwadau
Dilyniad	4	6	Cynlluniwyd ar gyfer 2 Mawrth 2019	Cyhoeddwyd RhPB
Diogelwch Seiber	4	8	Cynlluniwyd ar gyfer 16 Mawrth 2020	Cyhoeddwyd RhPB
Wrth gefn	I'W GADARNHAU	13	5 diwrnod – Pennu Mynediad Cyflym	14 diwrnod pellach i'w hychwanegu o archwiliadau a ohiriwyd ar gais y cleient. Mae'r balans presennol felly'n 22 diwrnod.
Cydlynu â Swyddfa Archwilio Cymru	1-4	2		
Cynllunio Blynyddol	1	4	Cyhoeddi'r Cynllun Cydweithredol Terfynol	
Adroddiad Blynyddol	4	4		
Rheoli, Cynllunio'r Cydbwyllgor Archwilio o ran Adrodd/Cefnogi	1-4	22		
Archwiliadau ar y cyd				
Rheoli Stadau – Cyflawni Heddlu Arweiniol – Gogledd Cymru	2	6	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 16 Ionawr 2020	Heddlu Arweiniol – Gogledd Cymru
Dyledwyr Heddlu Arweiniol – Dyfed Powys	3	5	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol i'r Heddlu Arweiniol ar 18 Rhagfyr 2019	Heddlu Arweiniol – Dyfed Powys
Cyflogres Heddlu Arweiniol – De Cymru	3	6	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol i'r Heddlu Arweiniol ar 28 Ionawr 2020	Heddlu Arweiniol – De Cymru – dechrau 28 Tachwedd 2019 Cyhoeddi RhPB 14 Awst 2019
Credydwyr Heddlu Arweiniol – Heddlu Gwent	3	6	Cyhoeddwyd adroddiad drafft i'r Heddlu Arweiniol ar 12 Rhagfyr 2019	Heddlu Arweiniol – Heddlu Gwent – dechrau 14 Hydref 2019
Adolygiad ar y cyd – Hafan Ar-lein Unigol Heddlu Arweiniol – Gogledd Cymru	3	5	Cyhoeddwyd adroddiad drafft 9 Ionawr 2020	Heddlu Arweiniol – Gogledd Cymru – dechrau 11 Tachwedd 2019 Cyhoeddwyd RhPB 2 Hydref 2019

ALLWEDD:

	=	I'w ddechrau
	=	Gwaith safle wedi dechrau

	=	Cyhoeddi adroddiad drafft
	=	Cyhoeddi adroddiad terfynol

Amserlen Arfaethedig Archwiliad ar gyfer bob Blwyddyn tan fis Mawrth 2023

Maes Adolygu	Math	2020/21	2021/22	2022/23
Llywodraethu				
Caiff y prif feysydd llywodraethu eu hadolygu fesul cylchdro bob blwyddyn megis cynllunio strategol, rheolaeth strategol, cydymffurfio â rheoliadau, rheoli perfformiad, fframwaith sicrwydd bwrdd, gweithio mewn partneriaeth, rheoli gwrthdaro, iechyd a diogelwch, llywodraethu atodol a sicrwydd trydydd parti.	Sicrwydd	✓	✓	✓
Cynllunio Strategol	Sicrwydd		10	
Cydweithrediadau	Gwerthusiad	10		
Cynllunio Adnoddau Strategol	Sicrwydd	*		
Rheoli Perfformiad	Sicrwydd		10	
Rheolaeth Iechyd a Diogelwch	Sicrwydd		10	
Cyfathrebiadau Corfforaethol	Sicrwydd			10
Ymgysylltiad	Cymunedol			10
Risg				
Mae fframwaith rheoli risg cadarn yn hanfodol i bob sefydliad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn nodi y bydd ein hadolygiadau blynyddol cylchol yn cwmpasu ymgorffori risg, nodi risg, lliniaru risg a gweithdai risg.	Cydymffurfiaeth/Gwerthusiad	✓	✓	✓
Rheoli Ansicrwydd – Lliniaru'r Rheolaethau	Cydymffurfiaeth	*	6	6
Systemau Ariannol – Rheoli Costau a sicrhau'r incwm mwyaf posibl				
Mae rheoli costau, sicrhau'r incwm mwyaf posibl a systemau ariannol cadarn yn hanfodol i les ariannol unrhyw sefydliad. Nod ein hadolygiadau o systemau ariannol allweddol yw sicrhau y cydymffurfir â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a chynorthwyo i ddiogelu rhag twyll posibl. Byddwn yn cynnal archwiliadau lefel uchel o systemau ariannol allweddol bob blwyddyn gyda rhaglen o adolygiadau systemau	Sicrwydd	✓	✓	✓

Maes Adolygu	Math	2020/21	2021/22	2022/23
ariannol fel taliadau gwiriadau iechyd, incwm, cyflogres, adrodd ar reoli cyllideb, cynllunio gwelliannau costau a chyfrifylfr.				
Rheolaeth Gyllidebol	Sicrwydd	*	6	6
Rheoli'r Trysorlys	Sicrwydd	4	4	4
Cyfrifylfr Cyffredinol	Sicrwydd	6	6	6
Cyflogres	Sicrwydd	10	10	10
Credydwyr	Sicrwydd	6	6	
Dyledwyr	Sicrwydd		6	
Pensiynau	Sicrwydd	8		8
Treuliau a Thaliadau Ychwanegol	Cydymffurfiaeth	8		8
Rhaglen Gyfalaf	Sicrwydd		8	8
Gwrth Lygredd	Cydymffurfiaeth	6	6	6
Asedau Sefydlog	Sicrwydd		6	
Rheoli'r Gweithlu				
Y maes gwariant mwyaf o'r Heddlu sy'n gyfrifol am gyflawni Cynllun yr Heddlu a Throseddau a Chynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl. Bydd y gwaith archwilio yn ystyried y Strategaeth AD; Datblygu Sefydliadol a'r Strategaeth Lles.				
• Datblygu Sefydliadol	Sicrwydd	7		
• Strategaeth AD	Sicrwydd		10	
• Lles a Strategaeth	Sicrwydd			10

Maes Adolygu	Math	2020/21	2021/22	2022/23
Ystadau a'r Fflyd				
Bydd Ystadau a'r Fflyd yn derbyn sylw archwilio fel meysydd gwariant allweddol i'r Heddlu.				
<ul style="list-style-type: none"> Rheolaeth y Fflyd – Strategaeth 	Gwerthusiad			6
<ul style="list-style-type: none"> Rheolaeth y Fflyd – Atgyweirio 	Cydymffurfiaeth		5	
<ul style="list-style-type: none"> Rheolaeth y Fflyd – Tanwydd 	Cydymffurfiaeth		6	6
<ul style="list-style-type: none"> Rheolaeth Ystâd – Cyflawni 	Cydymffurfiaeth			6
TGCH				
Byddwn yn defnyddio ein hasesiad risg GUARD i barhau i adolygu'r risgiau a'r rheolaethau TGCh sydd ar waith yn y sefydliad. Bydd y rhaglen barhaus o adolygiadau yn cynnwys diogelu data, llywodraethu TGCh, rheoli TGCh a chefnogi busnes, adolygiad cais, diogelwch rhwydwaith, ansawdd data a diogelu seiber.				
<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad Seilwaith 	Gwerthusiad	8		
<ul style="list-style-type: none"> Sicrwydd Data 	Sicrwydd	8		
<ul style="list-style-type: none"> Diogelwch y Rhwydwaith 	Sicrwydd		8	
<ul style="list-style-type: none"> Diogelu Data 	Cydymffurfiaeth		6	
<ul style="list-style-type: none"> Diogelwch Seiber 	Sicrwydd			8
<ul style="list-style-type: none"> Rheoli Newid 	Sicrwydd	8		
Dilyniad		✓	✓	✓
Byddwn yn cynnal gwaith dilynol parhaus ar argymhellion archwilio mewnol gan ddefnyddio porth cleientiaid a dull gweithredu argymhelliad TIAA. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i bob Cydbwyllgor.	Dilyniad	6	6	6

Maes Adolygu	Math	2020/21	2021/22	2022/23
Prosiectau Cydweithredol	Sicrwydd	*	*	*
Rhanbarth y Dwyrain – Uned Reoli	Cydymffurfiaeth	8		
Rhanbarth Canolog – Uned Reoli	Cydymffurfiaeth		8	
Rhanbarth y Gorllewin – Uned Reoli	Cydymffurfiaeth			8
Eiddo y Codir Tâl Amdano	Cydymffurfiaeth	6		6
Grantiau'r Comisiynydd	Gwerthusiad		-	6
Fetio	Gwerthusiad	*	6	
Adolygiadau ar y cyd				
Gweler cynllun ar y cyd ar gyfer manylion	Amrywiol	50	*	*
Rheoli Contractau	Sicrwydd	6	6	6
Rheolaeth a Chynllunio				
Wrth gefn – dyddiau heb eu defnyddio i'w cario ymlaen o 2019/20	-	14		
Sesiynau Briffio	-			
Cydlynu â Swyddfa Archwilio Cymru		*	*	*
Cynllunio	-	4	4	4
Adroddiad Blynyddol	-	4	4	4
Rheolwyr	-	18	18	18
Cyfanswm dyddiau		205	181	176

Cynllun Blynyddol Ar y Cyd Heddlu Cymru – 2020/21

Chwarter	Archwiliadau	Math	Dyddiau	Sail resymegol a chwmpawd
1	Fetio contractwyr	Cydymffurfiaeth	12	<p><u>Risg</u> Risg Twyll ac Enw Da.</p> <p><u>Rhesymeg</u> Nodi risgiau cynhenid. Posibilrwydd o gydweithio pellach. Bydd y nifer o ddyddiau yn cael eu rhannu'n gyfartal ar gyfer yr adolygiad hwn.</p> <p><u>Cwmpas</u> Bydd yr adolygiad yn ystyried trefniadau fetio contractwyr ar draws y pedwar heddlu a'r comisiynwyr heddlu a throredd. Bydd cwmpas yr adolygiad yn asesu'r trefniadau sydd yn eu lle, yn gwirio cydymffurfiaeth â'r trefniadau ac yn cymharu ar draws y sefydliadau ac yn nodi meysydd ar gyfer cydweithio. Nid yw cwmpas yr adolygiad yn cynnwys unrhyw agwedd arall o'r trefniadau fetio.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu Arweiniol – Gogledd Cymru</p>
2	Rheoli Risg – Lliniaru'r Rheolaethau	Cydymffurfiaeth	28	<p><u>Risg</u> Peryglon dethol.</p> <p><u>Rhesymeg</u> Yn gynwysedig yng Nghynllun Strategol ar gyfer 2020/21. Bydd y nifer o ddyddiau yn cael eu rhannu'n gyfartal ar gyfer yr adolygiad hwn.</p> <p><u>Cwmpas</u> Bydd dau risg sydd wedi'u cynnwys ym map risg y sefydliad ar hyn o bryd yn cael eu dewis a bydd effeithiolrwydd y rheolaethau a nodir yn cael ei adolygu. Bydd cymhariaeth o'r rheoliadau a sicrwydd rhestredig hyn yn cael ei wneud ar y cyd ar gyfer pob sefydliad. Nid yw cwmpas yr adolygiad yn cynnwys ystyried yr holl drefniadau lliniaru posibl na'u heffeithiolrwydd o ran lleihau'r cyfleoedd i adnabod y risgiau a nodwyd rhag digwydd.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu Arweiniol – De Cymru</p>

Chwarter	Archwiliadau	Math	Dyddiau	Sail resymegol a chwmpawd
2	Adolygiad Prosiect ar y cyd – Office 365 (fel rhan o'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol)	Gwerthusiad	30	<p><u>Risg</u> Risg Ariannol ac Enw Da.</p> <p><u>Rhesymeg</u> Prosiect Cymru Gyfan – Adolygiad Prosiect ar y cyd. Bydd yr amser yn cael ei rannu yn unol â'r hyn gytunwyd.</p> <p><u>Cwmpas</u> Bydd yr adolygiad yn gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio ar gyfer y Prosiect Office 365. Roedd cwmpas yr adolygiad hefyd yn cynnwys effeithiolrwydd y trefniadau rheoli prosiectau.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu Arweiniol – Heddlu Gwent</p>
2	Adolygiad Prosiect ar y Cyd – Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, prosiect ACE)	Gwerthusiad	30	<p><u>Risg</u> Risg Enw Da.</p> <p><u>Rhesymeg</u> Prosiect Cymru Gyfan - Adolygiad Prosiect ar y cyd. Bydd yr amser yn cael ei rannu yn unol â'r hyn a gytunwyd.</p> <p><u>Cwmpas</u> Bydd yr adolygiad yn gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio ar gyfer Prosiect Camau Cynnar Gyda'n Gilydd. Roedd cwmpas yr adolygiad hefyd yn cynnwys effeithiolrwydd y trefniadau rheoli prosiectau. Nodwyd nad oedd y prosiect yn cael ei ariannu tan 31 Mawrth ac yn dibynnu ar benderfyniad ar yr ariannu, mae'n bosib na fydd dim o'r adeiladwaith cyfredol ar ôl i gefnogi'r archwiliad. Os na fydd cyllid pellach bydd yr archwiliad yn ystyried sut y mae trefniadau yn ymgorffori i drefniadau'r Heddlu ei hun.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu Arweiniol – Gogledd Cymru</p>

Chwarter	Archwiliadau	Math	Dyddiau	Sail resymegol a chwmpawd
3	Rheolaeth Gyllidol Ar y Cyd	Sicrwydd	30	<p><u>Risg</u> Risg Ariannol.</p> <p><u>Rhesymeg</u> Risg ariannol, Adolygiad ar y cyd yn gynwysedig ym mhob cynllun ar gyfer 2020/21. Bydd yr amser yn cael ei rannu yn unol â'r hyn a gytunwyd.</p> <p><u>Cwmpas</u> Bydd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol dros y gyllideb ar y cyd a threfniadau ariannol y prosiect. Bydd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys ystyriaeth y costau ar y cyd, creu incwm ac adlenwadau.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu Arweiniol – Dyfed Powys</p>
3	Caffael – Arweinwyr Strategol	Gwerthusiad	20	<p><u>Risg</u> Risg Ariannol ac Enw Da.</p> <p><u>Rhesymeg</u> Meysydd newydd ar y cyd, risg ariannol. Bydd yr amser yn cael ei rannu yn unol â'r hyn a gytunwyd.</p> <p><u>Cwmpas</u> Bydd yr adolygiad yn gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio ar gyfer cyflwyno arweiniad strategol ar gyfer caffael ar draws sefydliadau Heddlu Cymru. Bydd y cwmpas manwl ar gyfer yr adolygiad yn cael ei gytuno arno yn y cyfarfod Grŵp Cyllid ac Adnoddau ar y Cyd. Bydd yn cynnwys dull parhaus ar draws y sefydliadau, cysylltiadau gwaith gyda chyrff sector cyhoeddus eraill, gwerthoedd cymdeithasol a dysgu oddi wrth ein gilydd. Ni fydd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys unrhyw agwedd o'r trefniadau caffael lleol sydd mewn lle ac ni fydd yn cynnwys profi cydsyniad.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu Arweiniol – De Cymru</p>

Chwarter	Archwiliadau	Math	Dyddiau	Sail resymegol a chwmpawd
3	Cynllunio Adnoddau Strategol	Gwerthusiad	40	<p><u>Risg</u> Risg Enw Da.</p> <p><u>Rhesymeg</u> Wedi ei nodi fel ardal gweithio ar y cyd i bob sefydliad yn y Grŵp Cyllid ac Adnoddau Ar y Cyd. Bydd yr amser yn cael ei rannu yn unol â'r hyn a gytunwyd.</p> <p><u>Cwmpas</u> Bydd yr adolygiad hefyd yn gwerthuso'r trefniadau sydd yn eu lle ymhob heddlu ar gyfer cynllunio adnoddau strategol, gan ystyried y fenter genedlaethol ar gyfer recriwtio Swyddogion Heddlu ychwanegol. Bydd cwmpas manwl yr adolygiad yn cael ei gytuno arno yn y cyfarfod Grŵp Cyllid ac Adnoddau ar y cyd. Ni fydd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys cynllun strategol cyffredinol a'r cysylltiad â'r Cynllun Heddlu a Throsedd.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu Arweiniol – Gogledd Cymru</p>
1 – 4	Cysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)		8	Mae'r amser ar gyfer cysylltu gyda Swyddfa Archwilio Cymru fel Archwilydd Allanol. Bydd hyn yn cael ei wneud ar y cyd ar gyfer pob sefydliad.
	Dyfed Powys/De Cymru a Gwent yn unig:			
3	Rheolaeth y Fflyd – Tanwydd	Cydymffurfiaeth	18	<p><u>Risg</u> Risg Ariannol</p> <p><u>Rhesymeg</u> Trefniadau rheoli fflyd ar y cyd. Cynlluniau ar gyfer Dyfed Powys, Gwent a De Cymru ar gyfer 2020/21. Bydd yr amser yn cael ei rannu yn unol â'r hyn a gytunwyd.</p> <p><u>Cwmpas</u> Bydd yr adolygiad hefyd yn gwirio cydymffurfiaeth gyda threfniadau defnydd tanwydd sydd yn eu lle ymhob sefydliad. Bydd arfer da a meincnodi ar draws y tri sefydliad yn cael eu rhannu fel bo'n briodol.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu Arweiniol – Gwent</p>

Chwarter	Archwiliadau	Math	Dyddiau	Sail resymegol a chwmpawd
	De Cymru a Gwent yn unig			
3	Cyfriflyfr Cyffredinol	Sicrwydd	11	<p><u>Risg</u></p> <p>Risg busnes</p> <p><u>Rhesymeg</u></p> <p>Mae'r maes risg ariannol allweddol yn cael ei chwblhau'n flynyddol. Dyraniad amser: 5 Gwent, 6 De Cymru</p> <p><u>Cwmpas</u></p> <p>Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer darparu trywydd archwilio effeithiol ar gyfer data a gofnodir ar y cyfriflyfr cyffredinol a phriodoldeb yr adroddiadau a gynhrychir. Nid yw cwmpas yr adolygiad yn ymestyn i'r trefniadau rheoli cyllidebol a'r cysoniadau banc.</p> <p><u>Arweinwyr</u></p> <p>Heddlu Arweiniol – Gwent</p>
3	Cyflogres	Sicrwydd	14	<p><u>Risg</u></p> <p>Risg busnes</p> <p><u>Rhesymeg</u></p> <p>Mae'r maes risg ariannol allweddol yn cael ei chwblhau'n flynyddol. Dyraniad amser: 6 Gwent, 8 De Cymru</p> <p><u>Cwmpas</u></p> <p>Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer: creu, diwygio a dileu cofnodion cyflogres; talu lwfansau a thalu gwobrau; a thalu cyflogau. Nid yw cwmpas yr adolygiad yn cynnwys penderfynu ar raddau cyflog, penodi a disodli staff, taliadau diswyddo neu ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth, neu drefniadau pensiwn.</p> <p><u>Arweinwyr</u></p> <p>Heddlu Arweiniol – De Cymru</p>


Chwarter	Archwiliadau	Math	Dyddiau	Sail resymegol a chwmpawd
3	Credydwyr	Sicrwydd	12	<p><u>Risg</u> Risg busnes.</p> <p><u>Rhesymeg</u> Mae'r maes risg ariannol allweddol yn cael ei chwblhau'n flynyddol. Dyranriad amser: 6 Gwent, 6 De Cymru.</p> <p><u>Cwmpas</u> Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer awdurdodi a thalu costau'r sefydliad a'r trefniant ar gyfer rheoli sieciau'r sefydliad a thaliadau awtomataidd. Nid yw'r cwmpas yn cynnwys rhoi sicrwydd bod y gwariant yn angenrheidiol nac y sicrhawyd gwerth am arian o'r gwariant a gyflawnwyd.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu Arweiniol – De Cymru</p>
3	Dyledwyr	Sicrwydd	11	<p><u>Risg</u> Risg busnes.</p> <p><u>Rhesymeg</u> Mae'r maes risg ariannol allweddol yn cael ei chwblhau'n flynyddol. Dyranriad amser: 6 Gwent, 5 De Cymru.</p> <p><u>Cwmpas</u> Mae'r adolygiad yn ystyried codi cyfrifon dyledwyr, casglu incwm, derbyn derbynebau, storio a bancio incwm a dderbynnir gan y sefydliad. Nid yw cwmpas yr adolygiad yn cynnwys nodi'r gweithgareddau sy'n arwain at incwm i'r sefydliad, y sail ar gyfer cyfrifo'r cyfraddau sydd i'w codi neu'r ffaith bod yr holl incwm sy'n dderbyniadwy wedi'i nodi.</p> <p><u>Arweinwyr</u> Heddlu sy'n arwain – Heddlu Gwent</p>
Cyfanswm Dyddiau Gweithio ar y Cyd			264	198 ar draws Cymru.
Dosraniad Heddlu Gogledd Cymru			93	Yn cynnwys Defnydd o'r Fflyd ac adolygiad ariannol dau heddlu ar y cyd
Dosraniad Heddlu Gogledd Cymru			50	
Dosraniad Heddlu Dyfed Powys			50	Yn cynnwys Defnydd o'r Fflyd
Dosraniad Heddlu Gwent			71	Yn cynnwys Defnydd o'r Fflyd ac adolygiad ariannol dau heddlu ar y cyd

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

30 Gorffennaf 2020

RHAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG

Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid



1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi derbyn rhaglen waith yn flynyddol yn ystod cyfarfod mis Gorffennaf. Mae hyn yn sicrhau fod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol gyda dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgor yn cael eu cyflawni yn ystod bob blwyddyn.
- 1.2 Yn ogystal, mae eitemau i'w cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio i'w nodi drwy ffyrdd amrywiol – gan swyddogion, staff neu aelodau'r Cydbwyllgor. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith yn llai ffurfiol, ac yn cael eu hychwanegu at yr agenda fel mae'n briodol.
- 1.3 Mae plismona'n amgylchfyd sy'n newid yn barhaus. Tra ei bod yn hanfodol fod y Cydbwyllgor Archwilio'n cyflawni gorchwylion penodol erbyn dyddiadau allweddol, mae cyflwyno'r rhaglen waith dim ond unwaith y flwyddyn yn anhyblyg. Nid yw'n dogfennu'n ddigonol pan mae eitemau sy'n cael eu nodi o'r newydd i'w cyflwyno i'r cydbwyllgor. Felly, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2020, fe wnaeth y Cydbwyllgor gynnig fod y rhaglen waith i'w thrafod ar ddiwedd bob cyfarfod.
- 1.4 Mae'r adroddiad hwn, felly, yn cynnwys y cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Os nad yw dyddiad y cyfarfod wedi'i gadarnhau, dangosir mis y cyfarfod fel arweiniad.

2. ARGYMHELLION

- 2.1 Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.
- 2.2 Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
- 2.3 Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.

3. RHAGLEN WAITH

3.1 Gan eithrio eitemau a amserlennwyd sy'n bodloni dyddiadau cau statudol, mae'r rhaglen waith yn hyblyg. Felly, gall eitemau ychwanegol gael eu hychwanegu os yw'r angen yn codi.

3.2 Mae nifer o eitemau agenda sefydlog ar hyn o bryd yn cael eu trefnu ar gyfer bob cyfarfod. Bydd y rhain yn parhau ar agenda'r CA hyd nes y clywir yn wahanol:

Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith 2019/20
Pawb (Hyd nes y clywir yn wahanol)	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddariad Busnes • Diweddariad HMICFRS • Diweddariad Archwilio Mewnol • Diweddariad Risgiau • Rhaglen Waith

Mae'r rhaglen waith ar wahân i'r eitemau agenda sefydlog a amlinellir uchod fel a ganlyn:

Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith 2019/20
5 Hydref 2020	<ul style="list-style-type: none"> • ISA 260 a llofnodi cyfrifon • Diweddariad llywodraethu (yn cynnwys adolygiad Cod FM) • Perfformiad Rheoli'r Trysorlys • At wraidd y mater Risgiau: COVID-19 – I'w gadarnhau: Proses adfer ac ailosod
10 Rhagfyr 2020	<ul style="list-style-type: none"> • Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr) • • Datganiad strategaeth risg a chwant risg – Adolygiad blynyddol • Diweddariad llywodraethu • Datganiad Rheoli'r Heddlu • Moeseg • At wraidd y mater Risgiau: i'w gadarnhau
Mawrth 2021	<ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys) <i>i'w chadarnhau cyn 1 Ebrill 2021</i> • Diweddariad llywodraethu - yn cynnwys AGS drafft • Archwilio Cymru – cynllun blynyddol • Risg at wraidd y mater: i'w gadarnhau
Gwanwyn 2021	<ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiad blynyddol Cydbwyllgor Archwilio Cymru
Mehefin 2021	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifon 2020/21 – sesiwn frifio dechnegol

Gorffennaf 2021	<ul style="list-style-type: none"> • ISA 260 a llofnodi cyfrifon <i>i'w llofnodi erbyn 31 Gorffennaf 2021</i> • Diweddariad llywodraethu • Gwerth am arian • Adroddiad Blynyddol y CA • At wraidd y mater: i'w gadarnhau
-----------------	---

4. GOBLYGIADAU

6.1	Cydraddoldeb	Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd mewn grym.
6.2	Ariannol	Mae cynllunio'r gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod yn lleihau'r angen am gyfarfodydd unswydd.
6.3	Cyfreithiol	Mae deddfwriaeth yn gofyn i Gydbwyllgor Archwilio gael ei sefydlu. Crynhoir swyddogaethau'r Cydbwyllgor Archwilio o fewn ei Gylch Gorchwyl sydd wedi'i baratoi yn unol â <i>Audit Committees\Practical Guidance for local Authorities and Police – Rhifyn 2018 (CIPFA)</i> . Mae'r rhaglen waith hon yn ystyried gofynion statudol ac ymarferol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn.
6.4	Cymuned	Cyhoeddir papurau a chofnodion cyfarfodydd, ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd eu mynychu.
6.5	Risg	Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
6.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae rôl y Cydbwyllgor Archwilio yn rhan o'r Cynllun Heddlu a Throsedd cyffredinol.

Awdur yr Adroddiad:

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Drwy'r e-bost

Cyfeirnod: 1920DO

Dyddiad cyhoeddi: 27 Ebrill 2020

Annwyl Arfon a Carl

Cynllun Archwilio Blynyddol 2020 - Effaith COVID-19

Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y DU a bydd yn effeithio'n sylweddol ar waith cyrff cyhoeddus o baratoi cyfrifon 2019-20 ac ar ein gwaith archwilio ninnau, yn archwilio ariannol ac yn archwilio perfformiad.

Oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth y DU ar symud a'r lefelau o absenoldeb salwch a ragwelir, rydym yn deall na fydd modd i lawer o gyrff cyhoeddus baratoi cyfrifon yn unol â'r amserlenni a nodwyd.

Ynghyd â chyflawni cyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol, ein blaenoriaeth ni yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff Archwilio Cymru, eu teuluoedd a rhai ein partneriaid mewn mannau eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y cyfnod hynod o heriol hwn.

Mewn ymateb i gyngor y llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, rydym wedi rhoi'r gorau i bob gwaith ar y safle mewn cyrff a archwilir ac mae ein swyddfeydd ni ein hunain wedi cau. Mae staff Archwilio Cymru yn gweithio o gartref a byddwn yn parhau i wneud pa gynnydd bynnag y gallwn ei wneud tra'n gweithio ac yn ymgysylltu â chi o bell.

Ymrwymwn i sicrhau na fydd ein gwaith archwilio yn cael effaith niweidiol arnoch ar adeg pan mae cyrff cyhoeddus dan bwysau ac yn canolbwyntio ar ddelio ag argyfwng cenedlaethol COVID-19.

Diwygiadau i'r Cynllun Archwilio a gyhoeddwyd 9 Mawrth 2020

Yng ngoleuni'r uchod, bydd angen i'r cynllun archwilio a roddwyd i chi ar 9 Mawrth 2020 gael ei ddiwygio.

Archwilio cyfrifon

Cod Ymarfer Cyfrifyddu CIPFA/LASAAC

Byddwch yn gwybod bod Bwrdd Cod CIPFA/LASAAC yn ddiweddar wedi ystyried Diweddariad arfaethedig i'r Cod ar gyfer 2019-20 a fyddai wedi datgymhwyso rhannau helaeth o God 2019-20. Ar ôl trafod, penderfynodd Bwrdd Cod CIPFA / LASAAC beidio â mabwysiadu'r Diweddariad Cod arfaethedig. Felly, bydd Cod 2019-20 (y Cod) yn gymwys yn llawn ar gyfer eleni. Rydym yn deall bod yr awdurdod yn gweithio tuag at baratoi cyfrifon yn unol â'r Cod llawn.

Risgiau archwilio

O ganlyniad i argyfwng cenedlaethol COVID-19, mae angen i ni ddiweddarau ein hasesiad o risgiau archwilio. Mae'r atodlen yn Atodiad A yn disodli Arddangosyn 2 yng nghynllun archwilio 2020.

Materion archwilio posibl

Rydym yn ymwybodol o bryderon a fynegwyd gan nifer o awdurdodau lleol ynglŷn â gwahanol agweddau ar y cyfrifon.

Ymhlith y meysydd pryder penodol a godwyd gyda ni mae:

- Y defnydd cynyddol o amcangyfrifon. O ganlyniad i gloi'r DU, efallai y bydd gofyn i awdurdodau ddefnyddio mwy o amcangyfrifon ar gyfer eu cyfrifon nag y bu angen mewn blynyddoedd blaenorol. Mae ein harchwilwyr wedi arfer delio ag amcangyfrifon a chymhwyso safonau archwilio mewn perthynas ag amcangyfrifon. Byddwn yn trafod gyda chi y tybiaethau allweddol a'r seiliau tystiolaeth sy'n sail i'r amcangyfrifon a byddwn yn gwneud hyn yn fuan yn y broses.
- Prisiadau asedau. Mae awdurdodau wedi mynegi pryderon am briswyr proffesiynol yn cymhwyso ymwadiadau i'w prisiadau a'r effaith bosibl ar farnau archwilio. Byddwn yn trafod y prisiadau hyn ac unrhyw ddatgeliadau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r prisiadau gyda chi er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn gyffredinol yn cyflwyno darlun gwir a theg.
- Prisiadau pensiynau. Oherwydd y symudiadau sylweddol yn y marchnadoedd buddsoddi, mae pryderon a fydd prisiadau a ddarperir gan actwariaid yn dderbyniol. Mae ein proses archwilio yn cynnwys defnyddio actwari ymgynghorol i roi sicrwydd archwilio ynglŷn â'r fethodoleg a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan actwariaid wrth ddarparu dyddiad ar gyfer datgeliadau IAS19. Byddwn yn adolygu adroddiadau IAS19 eich actwari ac asesiad ein hactwari ymgynghorol ninnau ac yn trafod unrhyw bryderon gyda chi yn gynnar yn y broses.
- Tynnu nodiadau datgelu er mwyn symleiddio'r broses o baratoi'r cyfrifon. Holwyd ni am ein barn ynghylch y posibilrwydd o eithrio nodiadau datgelu

Ile y teimlir mai ychydig o werth y mae'r nodiadau'n ei ychwanegu i ddefnyddwyr y cyfrifon. Mae'r enghreifftiau a ddyfynnwyd yn cynnwys y nodiadau cydnabyddiaeth a datgeliadau'r partïon cysylltiedig. Mae'r nodiadau cydnabyddiaeth yn ofynnol yn ôl statud ac felly ni ellir eu dileu o'r cyfrifon. Gyda golwg ar y nodiadau eraill, tynnwn eich sylw at ddarpariaethau'r Cod sy'n ymwneud â pherthnasedd. Mae'r Cod yn nodi bod hepgoriadau neu gamddatganiadau am eitemau yn berthnasol pe gallent, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau neu asesiadau y mae defnyddwyr yn eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol. Gallai natur neu faint yr eitem, neu gyfuniad o'r ddau, fod y ffactor sy'n penderfynu. Dylai'r Awdurdod ystyried darpariaethau'r Cod sy'n ymwneud â pherthnasedd wrth adolygu'r nodiadau datgelu a thrafod unrhyw bryderon gyda'r tîm archwilio. Ceir rhagor o fanylion am berthnasedd yn y paragraffau canlynol yn y Cod: 1.7.1, 2.1.2.14, 3.3.2.4, 3.4.2.7 a 3.9.2.17.

Os oes gennych unrhyw feysydd eraill sy'n peri pryder, codwch y rhain gyda'ch tîm archwilio cyn gynted ag sydd modd. Bydd ein harchwilwyr yn ceisio bod yn bragmatig ynghylch darparu gwybodaeth a thystiolaeth yn amserol ac yn dangos cydymdeimlad yn ein cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig ac wrth adrodd ar faterion sydd wedi codi yn sgil y digwyddiadau presennol.

Fodd bynnag, rhaid inni barhau i wneud ein gwaith archwilio yn unol â'r safonau archwilio. Byddwn yn ceisio cael digon o dystiolaeth archwilio fel sydd angen i ffurfio barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol.

Amserlen archwilio

Gyda golwg ar ein gwaith ar gyfrifon, rydym yn ymwybodol y gall fod anawsterau o ran cwrdd â dyddiadau paratoi a chyhoeddi'r cyfrifon a osodwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi na fydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio gan eu bod eisoes yn darparu digon o hyblygrwydd i ymdrin ag unrhyw oedi sy'n deillio o COVID-19.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi hysbysiad pan nad yw'r awdurdod yn disgwyl cwrdd â'r dyddiadau a bennwyd gan y Rheoliadau. Rwyf wedi cynnwys manylion pellach yn Atodiad B a hysbysiadau enghreifftiol yn Atodiad C, y bydd yr Awdurdod efallai yn dymuno ystyried eu defnyddio.

Mae'r gofynion ar gyfer arfer hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn parhau i fod yn gymwys. Mae hyn yn peri rhai anawsterau ymarferol tra bo cyfyngiadau cloi yn dal i fod mewn grym e.e. mynediad i'r cyhoedd at gofnodion cyfrifyddu'r awdurdod.

Felly, bydd y tîm archwilio yn trafod amserlen briodol gyda chi ar gyfer archwilio cyhoeddus pan fydd gennym syniad clir o'r dyddiad y bydd y cyfrifon ar gael a phan fydd cyfyngiadau'r cloi wedi'u llacio'n ddigonol.

Bydd y tîm archwilio yn cyhoeddi hysbysiad archwilio maes o law yn nodi'r dyddiad penodedig.

Hwyrach y bydd hyn yn golygu y bydd oedi cyn y gallwn gyhoeddi ein barn archwilio.

Bydd angen inni drafod unrhyw newidiadau i'r amserlenni ar gyfer cynhyrchu ac archwilio cyfrifon gyda chi, ond byddwn yn parhau i weithio mor hyblyg ag y gallwn. Bydd yn hanfodol i'r ymgysylltiad hwn barhau dros yr ychydig fisoedd nesaf, yn erbyn yr hyn a fydd, yn ddiamau, yn gefndir sy'n newid yn gyflym. Fy asesiad i yw y bydd ein gallu i gwrdd â dyddiadau diwygiedig ar gyfer cwblhau archwilio yn dibynnu'n bennaf ar:

- y graddau y mae gweithio ac archwilio o bell yn bosibl os na chaiff cyfyngiadau'r cloi presennol eu codi;
- ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith ategol a fydd ar gael i ni (fydd yn dibynnu'n rhannol ar y graddau y bydd rheolwyr wedi adolygu'r deunydd hwnnw cyn iddo gael ei archwilio);
- y graddau y bydd staff y corff a archwilir ar gael i ymateb yn fuan i ymholiadau archwilio (o ystyried pwysau posibl absenoldeb salwch, cyfrifoldebau gofalwyr a llenwi ac yn y blaen);
- y graddau y bydd staff Archwilio Cymru yn parhau ar gael i gynnal y gwaith archwilio; a
- gallu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i ymgynnull (dros y we o bosibl) i gymeradwyo cyfrifon.

Byddwn, wrth gwrs, yn cadw llygad barcud ar yr holl ffactorau hyn yn yr wythnosau sydd i ddod ac yn edrych ar ddewisiadau i oresgyn rhwystrau posibl ar ffordd cwblhau'n brydlon lle bynnag y bo modd, a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac i'ch tîm am unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn.

Byddwn yn darparu diweddariadau pellach yn ôl yr angen. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag un o'n tîm archwilio, os gwelwch yn dda.

Yn gywir

Derwyn Owen
Cyfarwyddwr Ymgysylltu

Atodiad A: Risgiau Archwilio Datganiad Ariannol Diwygiedig

Mae'r arddangosyn canlynol yn cymryd lle Arddangosyn 2 yn y cynllun archwilio a gyhoeddwyd ar 9 Mawrth 2020.

Risgiau Archwilio Datganiad Ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi risgiau archwilio allweddol y datganiad ariannol a nodwyd yn ystod cyfnod cynllunio'r archwiliad.

Risg Archwilio	Ymateb Archwilio Arfaethedig
Risgiau Arwyddocaol	
<p>Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anragweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb cofnodion dyddiaduron ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am dueddiadau;• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i gwrs arferol busnes.
<p>Dyfarniad McCloud</p> <p>Yn 2015 cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, gan olygu bod mwyafrif gweithwyr y sector cyhoeddus wedi'u symud i gynlluniau pensiwn newydd yn 2015.</p> <p>Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'mesurau diogelu dros dro' a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau y barnwyr a'r diffoddwyr tân, fel rhan o'r diwygiadau, yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth eu bod yn derbyn bod y dyfarniad yn gymwys i holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Mae'r dyfarniad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar y rhwymedigaethau pensiwn a ddatgelwyd gan yr Awdurdod.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n adolygu'r ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â dyfarniad McCloud ac yn monitro cynnydd o ran datblygu cynigion ar gyfer datrysiad i'w gymhwyso yng nghynllun pensiwn yr Heddlu.</p>

Risg Archwilio

Ymateb Archwilio Arfaethedig

Risgiau Arwyddocaol

Effaith COVID-19 – risgiau cyffredinol

Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr Awdurdod a'i broses o gynhyrchu cyfrifon. Ymhlith y risgiau posibl mae:

Digwyddiadau dilynol. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd, yn annhebygol o baratoi ei gyfrifon yn unol â'r amserlen a osodwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r terfynau adrodd ansefydlog yn cynyddu'r cyfnod (ac felly'r risgiau cysylltiedig) i ddigwyddiadau ddigwydd rhwng dyddiad y datganiadau ariannol a dyddiad adroddiad yr archwilydd. Bydd canlyniadau'r feirws ar ôl 31 Mawrth 2020 yn gyffredinol yn ddigwyddiadau ôl-fantolen na fyddant yn addasu, ond efallai y bydd angen rhyw fath o ddatgeliad.

Defnyddio amcangyfrifon. Efallai y bydd yr ansicrwydd a'r oedi a achosir gan y cloi ledled y DU yn golygu nad oes data gwirioneddol ar gael ac y bydd mwy o ddefnydd o amcangyfrifon wrth baratoi'r cyfrifon.

Bydd fy nhîm archwilio yn cymryd y camau canlynol i sicrhau bod y risgiau sy'n deillio o COVID-19 yn cael sylw digonol:

Byddwn yn ymestyn cyfnod yr adolygiad o ddigwyddiadau dilynol er mwyn nodi unrhyw ddigwyddiadau dilynol o bwys sy'n gysylltiedig â COVID-19, ac a yw'r rhain wedi cael y sylw dyledus neu wedi'u datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol.

Byddwn yn ystyried a oes meysydd y gallai fod angen i reolwyr ddarparu tystiolaeth bellach ar eu cyfer oherwydd bod y mater hwn yn newid yn gyflym.

Byddwn yn sicrhau bod newidiadau priodol wedi cael eu gwneud i gydnabod unrhyw ansicrwydd pellach wrth gyfrifo amcangyfrifon cyfrifyddu (gan gynnwys cyfrifiadau amhariad).

Byddwn hefyd yn ystyried a yw rhagdybiaethau yn briodol o dan yr amgylchiadau a byddwn yn canolbwyntio mwy ar y meysydd canlynol:

- y broses o gau'r datganiad ariannol (yn enwedig cofnodion dyddiaduron a newidiadau eraill a wnaed).
- Gwerthusiad yr archwilydd o gyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys ystyried a wnaed datgeliadau digonol.

Roedd ein cynllun archwilio cychwynnol yn cynnwys cyfeiriad at gyflwyniad disgwylidiedig Prydlesi IFRS 16 yn 2020-21. Mae hyn yn awr wedi ei ohirio hyd 2021-22.

Bydd fy nhîm yn parhau i adolygu'r sefyllfa.

Atodiad B: Gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

Efallai eich bod yn ymwybodol bod yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol, Robert Jenrick AS, wedi cyhoeddi yn Lloegr y bydd y dyddiad cau ar gyfer paratoi cyfrifon llywodraeth leol yn cael ei ymestyn i 31 Awst 2020 a dyddiad cyhoeddi'r cyfrifon archwiliedig hyd at 30 Tachwedd.

Bu Archwilio Cymru'n trafod y datblygiad hwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i weld a fydd cyhoeddiad tebyg yn cael ei wneud ar gyfer Cymru. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru (fel y cafodd ei gyfleu i gyrff llywodraeth leol) ar hyn o bryd fel y'i nodir isod.

Gofynion statudol

Nodir y sefyllfa statudol ar gyfer gyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd).

Dehongliad Llywodraeth Cymru

Mae Rheoliad 10 yn nodi'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac archwilio'r cyfrifon blynyddol. Oherwydd effaith COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl i bob corff llywodraeth leol gwrdd â'r amserlen hon. Mae Rheoliad 10 (4) yn rhoi digon o hyblygrwydd i gyrff llywodraeth leol ymdrin ag oedi a achosir gan COVID-19. Mae ei ganllawiau ar y Rheoliadau yn nodi:

“Lle, yn eithriadol, na all ardystiad ddigwydd cyn [31 Mai/15 Mehefin], mae angen cymryd camau i gyhoeddi datganiad sy'n nodi'n glir y rhesymau pam nad yw hyn wedi digwydd cyn y dyddiad hwnnw a chytuno ar ddull gweithredu i sicrhau y gwneir hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl [31 Mai/15 Mehefin].”

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai'r cyfrifon gael eu cyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf/15 Medi, hyd yn oed os nad yw'r cyfrifon wedi cael eu cymeradwyo.

Ar y sail bod digon o hyblygrwydd wedi ei adeiladu i mewn i'r Rheoliadau cyfredol, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen diwygio'r Rheoliadau.

Barn Archwilio Cymru a'r effaith ar y broses archwilio

Mae Archwilio Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod digon o hyblygrwydd yn bod eisoes yn y Rheoliadau.

Os digwydd i'r cyfrifon beidio â chael eu paratoi yn unol â'r amserlen statudol, dylai gyrff a archwilir hysbysu eu tîm archwilio a chyhoeddi hysbysiad yn nodi bod yna oedi a'r rheswm dros yr oedi. Ceir enghraifft o eiriad yn [Atodiad C](#)

Atodiad C: Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – awgrym o hysbysiad i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Hysbysiad archwilio lle na all y Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio'r cyfrifon naill ai oherwydd salwch neu oherwydd nad yw'r cyfrifon wedi'u paratoi

Mae Rheoliad 10 (1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru/Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2020.

Nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Oherwydd argyfwng COVID-19, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd/Prif Gwnstabl wedi dargyfeirio adnoddau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen allweddol ac nid yw'r datganiad o gyfrifon wedi'i baratoi eto. Bydd y datganiad o gyfrifon yn cael ei baratoi a bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio'r datganiad o gyfrifon pan fydd pwysau uniongyrchol argyfwng COVID-19 wedi cilio.

Hysbysiad archwilio lle mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r cyfrifon ond nad yw'r corff a archwilir yn cyfarfod ac felly mae'n methu â chymeradwyo'r cyfrifon

Mae Rheoliad 10 (1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru/Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2020.

Llofnododd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ac ardystio'r cyfrifon ar [dyddiad].

Mae Rheoliad 10 (2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeiriwyd ato uchod, bod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru/Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad o gyfrifon a archwiliwyd. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2020.

Oherwydd argyfwng COVID-19, nid yw'r datganiad o gyfrifon wedi'i baratoi eto.

NEU

Oherwydd argyfwng COVID-19, nid yw Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru/Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi cyfarfod i gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

NEU

Oherwydd argyfwng COVID-19, nid yw archwiliad datganiad o gyfrifon 2019-20 wedi'i gwblhau eto ac nid oes unrhyw farn archwilio wedi'i darparu. Y datganiad o gyfrifon sy'n cael ei gyhoeddi yw'r datganiad o gyfrifon nas archwiliwyd.